
CYNGOR CAERDYDD

# CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY (CGHT) 2020-30



Mae'r ddogfen hyn ar gael yn Saesneg ar wefan Cyngor Caerdydd (Hawliau Tramwy Cyhoeddus)

This document is available in English and is on Cardiff Council's website (Public Rights of Way)

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

OUTDOOR Cardiff AWYR AGORED Caerdydd

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd

Ysgrifennwyd gan Tricia Cottnam

Dyluniwyd gan Mark Goddard

Cyngor Caerdydd - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) 2020-30

Dyletswydd statudol, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 – Adran 60 a 61



## Gweledigaeth Hawliau Tramwy Cyngor Caerdydd:

**Amcan Cyngor Caerdydd yw rheoli, cynnal, gwella a datblygu'r rhwydwaith Hawliau Tramwy a mynediad i gefn gwlad, er mwyn cynnig cyfleoedd gwell i fwy o bobl fwynhau'r awyr agored, helpu i gefnogi eu ffordd o fyw a chyfrannu at eu llesiant.**

**Rydym eisiau gwneud y rhwydwaith yn fwy hygyrch i'r cymunedau lleol ac ymwelwyr â'n dinas, a hyrwyddo ac annog cyfrifoldeb am ein hamgylchedd awyr agored.**

Fforest Fawr, Whitchurch

# TALFYRIADAU A GEIRFA:

| | |
|---|---|
| DMS | Arbenigwr Rheoli Asedau Cyngor Caerdydd; system reoli ddigidol i gofnodi problemau llwybrau, trefnu gwaith trwsio neu waith arall a chael adroddiadau. |
| CROW | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; yn cynnwys gofyniad i lunio CGHT 10 mlynedd (adrannau 60-61) |
| MD | Map Diffiniol; gweler tudalen 4 am ddiffiniad |
| GAMD | Gorchymyn Addasu Map Diffiniol |
| km | Cilometr |
| m | Milltir |
| FfMLl | Fforwm Mynediad Lleol; grŵp y mae ei ddiddordebau'n berthnasol i HTC |
| ALl | Awdurdodau Lleol; ALlau cymdogol Cyngor Caerdydd yw: Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Dinas Casnewydd |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol; cynllun y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdano i gynyddu tai i ymdopi â'r galw am gartrefi; mabwysiadodd Cyngor Caerdydd ei gynllun yn Ionawr 2016. |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru (Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt); yn gofalu am yr amgylchedd i bobl a natur, yn gweithredu o fewn LlC. |
| AAC | Awyr Agored Caerdydd |
| AO | Arolwg Ordnans |
| AG | Arolygiaeth Gynllunio; mae'n cymeradwyo gorchmynion cyfreithiol, gan gynnwys Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol |
| HTC | Hawliau Tramwy Cyhoeddus/ Hawl Dramwy Gyhoeddus; gweler HTC Cyngor Caerdydd |
| CGHT | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy; cynllun 10 mlynedd i reoli a gwella'r rhwydwaith HTC yng Nghaerdydd; gweler CGHT Cyngor Caerdydd |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| CAMPUS | Amcanion; Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol |
| DG | Datganiad Gweithredu; rhan o'r CGHT newydd – mae'n nodi'r nodau 10 mlynedd ar gyfer gwella'r rhwydwaith llwybrau. |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SWOT | Dadansoddiad; Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau |
| LlAC | Llwybr Arfordir Cymru; llwybr sy'n arwain o amgylch arfordir cyfan Cymru |
| LlC | Llywodraeth Cymru; yn adran yr Amgylchedd a Chefn Gwlad datblygir polisi a chanllawiau ar fynediad i'r awyr agored, e.e. canllaw i ALl ar ROWIP newydd. Maent hefyd wedi helpu gyda rhywfaint o gyllid grant ar gyfer gwelliannau i lwybrau penodol. |

I gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) gan gynnwys mapio, rhoi gwybod am broblem, taflenni gwybodaeth ac ati, ewch i'r gwefannau PROW.





# TABL CYNNWYS:


**Gweledigaeth Hawliau Tramwy Cyngor Caerdydd** ... **1**
**Talfyriadau a Geirfa** ... **2**
**Rhagair a chymeradwyaeth gan yr Arweinydd a'r Cynghorydd** ... **4**
**Ein Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)** ... **6**
**1. Cyflwyniad** ... **9**
1.1 Caerdydd, Prifddinas Cymru ... 15
1.2 Tabl i ddangos defnyddwyr llwybrau cyfreithlon ... 16
1.3 Beth yw Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC)? ... 17
1.4 Map Diffiniol (MD) ... 17
**Map 1: Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus Caerdydd** ... **18**
1.5 Pwy all ddefnyddio pa lwybr? ... 22
1.6 Pwy sy'n cynnal ein HTC? ... 23
1.7 Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) ... 23
1.8 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ... 24
**2. Pam ein bod ni'n creu CGHT newydd?** ... **25**
2.1 Pam ein bod ni'n creu CGHT newydd? ... 27
**3. Asesiad Newydd ac arolwg cyhoeddus** ... **29**
3.1 Gwerthuso sut cyflawnwyd y CGHT cyntaf, 2008-18 (Cam 3) ... 30
3.2 Gwerthuso cyflwr presennol y rhwydwaith a'i gofnod cyfreithiol ... 32
3.2.1 Cyflwr presennol y rhwydwaith ... 32
3.2.2 Y cofnod cyfreithiol ... 33
**Map 2: Map Ardal Cymdogaethau Caerdydd** ... **34**
3.3 Anghenion a chyfleoedd yn y dyfodol ... 35
3.3.1 Arolwg cyhoeddus ... 35
3.3.2 Sut y gwnaethom gynnal yr arolwg ... 35
3.3.3 Arolwg CGHT – sut mae ymatebion wedi newid ... 36
3.3.4 Cystadleuaeth Instagram ... 37
3.3.5 Canlyniadau'r arolwg ... 38
3.3.6 Gwerthuso – Pwyntiau pellach i'w nodi ... 40
3.3.7 Supporting groups and influencing factors ... 40
**Map 3: Safleoedd Strategol y CDLl (amlinell coch)** ... **42**
3.4 Grwpiau cefnogi a ffactorau dylanwadol ... 45
3.5 Cyhoeddi'r CGHT 2020-30 ... 45
**4. Datganiad Gweithredu yr hyn y gobeithiwn ei gyflawni** ... **47**
4.1 Strategaethau Allweddol ... 49
**5. Nodau Allweddol** ... **51**
5.1 Ynglŷn â'n Nodau Allweddol ... 52
Nodau Allweddol 2020-30 – disgrifiad a chyllid ... 54
5.2 Rheoli newid yn y dyfodol mewn Polisïau a Deddfwriaeth Allweddol ... 62
**6. Cynlluniau Cyflenwi** ... **63**
6.1 Canllawiau Cynllun Cyflenwi Llywodraeth Cymru ... 64
6.2 Adolygu Cynlluniau Cyflenwi – y Rhaglen Flynyddol ... 64
6.2.1 Cynllun cyflenwi a gwneud penderfyniadau 5-cam HTC ... 65
**Atodiad 1 – Dogfennau cefnogol a chyfeiriadau** ... **67**
**Atodiad 2 – Cysylltiadau â Thrywyddau a Llwybrau Cylchol** ... **69**
**Atodiad 3 – Ystyriaethau'r Adolygiad o'r CGHT Cyntaf** ... **70**
**Atodiad 4 – Diffiniad o ddadansoddiad SWOT a Strategaethau Allweddol** ... **75**
**Atodiad 5 – Asesiad Amgylcheddol Strategol** ... **81**
**Atodiad 6 – Rhestr Ymgynghori CGHT** ... **83**



Camau Llys-Faen

# RHAGAIR A CHYMERADWYAETH GAN YR ARWEINYDD A CHYNGHORYDD

*"...annog ein dinasyddion a'n hymwelwyr i ddefnyddio ein rhwydwaith llwybrau i gerdded, marchogaeth neu feicio. Mae mor bwysig helpu i wneud ein hamgylchedd yn gynaliadwy ac uwchlaw popeth, yn bleserus."*



Camfa Geffylau - Fforest Fawr, Tongwynlais

# RHAGAIR

### Y Cynghorydd Huw Thomas,

### Arweinydd Cyngor Caerdydd

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) 2020-30 yw ein hail gynllun 10-mlynedd ac mae wedi'i lunio fel rhan o'n dyletswydd statudol dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Ei nod yw gwella rhwydwaith llwybrau'r ddinas, sy'n adnodd gwerthfawr i'n preswylwyr ac ymwelwyr â Chaerdydd.

Rydym wedi ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ein harolwg, sydd wedi bod yn ddefnyddiol o ran rhoi syniadau a ffocws i welliannau'r dyfodol i'n rhwydwaith. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chymunedau a grwpiau lleol, gan gynnwys ein Fforwm Mynediad Lleol a'r grŵp Seilwaith Gwyrdd, ynghyd â'n hawdurdodau lleol cymdogol i sicrhau bod llwybrau hir rhyngom ni yn cael eu gwella.

Mae CGHT 2020-30 yn adlewyrchu llawer o'n hymrwymiadau Uchelgais Prifddinas, fel buddsoddi mewn dulliau teithio cynaliadwy i gynnig cyfleoedd gwell o ran cerdded, beicio, hygyrchedd a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae hefyd yn adlewyrchu ein dymuniad i weithio gyda'n cymunedau ac rwy'n hyderus y bydd defnyddwyr llwybrau, yn awr ac yn y dyfodol, yn llawn brwdfrydedd am CGHT 2020-30.

Rwy'n ddiolchgar i'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus, rhanddeiliaid a phawb a gyfrannodd at ddatblygu'r cynllun. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i bawb a neilltuodd amser i ymateb i'n harolwg. Rydych wedi chwarae rhan bwysig yn ein helpu i lunio'r cynllun hwn a'n blaenoriaethau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.



Y Cynghorydd Huw Thomas



Cyngor Caerdydd - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2020-30

# DATGANIAD ARDYSTIO

### Y Cynghorydd Caro Wild,

### yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, Cyngor Caerdydd

Rwy'n falch iawn o ardystio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) 2020-30, gan ei fod yn annog ein dinasyddion a'n hymwelwyr i ddefnyddio ein rhwydwaith llwybrau i gerdded, marchogaeth neu feicio, fel dewis teithio cynaliadwy neu yn syml er mwynhad. Rwy'n credu y bydd yn helpu i wella iechyd a lles llawer o ddefnyddwyr ein rhwydwaith llwybrau.

Mae rhywfaint o rwydwaith llwybrau'r ddinas yn alinio â'n llwybrau Teithio Llesol a hefyd yn gysylltiad i gymunedau newydd sy'n cael eu datblygu yn y ddinas, a gobeithio y bydd pobl yn manteisio ar hyn. Mae mwy a mwy o bobl yn dewis beicio neu gerdded i'r gwaith neu ysgol, felly os gallwn wneud eu llwybr yn un pleserus, byddai hynny'n ddechrau gwych. Mae mor bwysig helpu i wneud ein hamgylchedd yn gynaliadwy ac, uwchlaw popeth, yn bleserus.

Mae CGHT 2020-30 yn dangos ein bod wedi gwrando ar ein dinasyddion drwy'r arolwg CGHT. Rydym yn llunio cynlluniau ymarferol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf ac yn ymrwymedig i gyflawni gwelliannau i'n rhwydwaith llwybrau, sydd eisoes yn adnodd poblogaidd i bobl ei ddefnyddio a'i fwynhau.




Y Cynghorydd Caro Wild



Ceffylau a marchogion yn mwynhau cefn gwlad

# CRYNODEB O'N CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY (CGHT)

*"Camau i wella rhwydweithiau HTC er budd yr holl ddefnyddwyr; cerddwyr, beicwyr, marchogion, defnyddwyr oddi ar y ffordd a phobl â phroblemau synhwyraidd/symudedd."*



Llyn Hendre, Gwynllŵg

## Crynodeb o'n Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)

Mae gan Gyngor Caerdydd rwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) o tua 200 cilomedr/124 milltir, sy'n cynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig. Hefyd, mae gan y ddinas nifer o safleoedd a llwybrau eraill sy'n darparu cyfleoedd mynediad fel llwybrau caniataol, lonydd gwyrdd, llwybrau beicio, parciau a thir comin.

Yn dilyn deddfwriaeth genedlaethol, gosododd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 rwymedigaeth gyfreithiol ar bob Awdurdod Lleol (ALl) i gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT). Byddai'r cynllun hwn yn amlinellu sut y byddai pob ALl yn rheoli ac yn gwella ei rwydwaith HTC dros y 10 mlynedd nesaf. Roedd y ddyletswydd hefyd yn nodi y dylai ALlau gymryd camau i wella eu rhwydweithiau Hawliau Tramwy Cyhoeddus er budd yr holl ddefnyddwyr; cerddwyr, beicwyr, marchogion, defnyddwyr oddi ar y ffordd a phobl â phroblemau synhwyraidd/symudedd, sy'n bwysig ar gyfer ymarfer corf iach a lles meddyliol.

Nawr, ddegawd ar ôl cyhoeddi CGHT cyntaf Caerdydd, mae Deddf CROW 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol ystyried ei ddiwygio am y 10 mlynedd nesaf. Yn 2016, darparodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau i Awdurdodau Lleol i gefnogi eu hadolygiad deng mlynedd cyntaf o CGHT, gyda'r disgwyliad y byddai'n helpu i gynllunio strategaeth i reoli, cynnal, gwella, datblygu, integreiddio a hyrwyddo eu cynlluniau rhwydwaith HTC lleol.

## Trosolwg o bob adran yn y ddogfen hon

- Mae **Adran 1** yn rhoi Cyflwyniad a chefndir i'r CGHT a rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) Caerdydd.
- Mae **Adran 2** yn rhoi'r rhesymau dros lunio CGHT newydd ar gyfer 2020-30.
- Mae **Adran 3** yn rhoi manylion yr Asesiad Newydd, sy'n edrych ar 3 phrif bwynt: adolygu CGHT 2008-18, gwerthuso'r rhwydwaith presennol, a gwerthuso anghenion a chyfleoedd y cyhoedd i ddefnyddio'r rhwydwaith yn y dyfodol. Wrth edrych ar anghenion y dyfodol, cynhaliwyd arolwg cyhoeddus helaeth a cheir y prif ganlyniadau yn yr adran hon.
- Mae **Adran 4** yn amlinellu Datganiad Gweithredu CGHT 2020-30, sydd â 5 strategaeth allweddol ar gyfer y nodau tymor hir dros y cyfnod o 10 mlynedd, fel y rhestrir isod:

| Rhif. | Strategaeth Allweddol |
|---|---|
| 1 | Datblygu system reoli fwy effeithlon ar gyfer gwaith Hawliau Tramwy statudol |
| 2 | Cynyddu mynediad i bawb trwy welliannau rhwydwaith |
| 3 | Gwella a hyrwyddo'r rhwydwaith HTC a gweithgareddau awyr agored ar gyfer iechyd a hamdden |
| 4 | Cadw a gwella'r rhwydwaith HTC ac ecosystemau |
| 5 | Bod yn ymatebol i Ddeddfwriaeth newydd, cynlluniau a strategaethau lleol diwygiedig a datblygiadau tir |





- **Adran 5** Mae'r Nodau Allweddol yn darparu cynllun manylach o flaenoriaethau'r Cyngor dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd y rhain yn llywio Cynllun Cyflenwi'r tîm HTC (rhaglen waith flynyddol), a fydd â thasgau penodol a all newid yn ystod y flwyddyn yn dibynnu ar argaeledd cyllid ac adnoddau staff. Y 12 Nod Allweddol yw:

| Rhif | Nodau Allweddol |
|---|---|
| 1 | Gwella rheolaeth a chynnal parhaus y rhwydwaith HTC |
| 2 | Cynnal Map Diffiniol cyfredol a phrosesu Gorchmynion Cyfreithiol |
| 3 | Gwella ecosystemau Caerdydd ar hyd llwybrau HTC |
| 4 | Gosod arwyddion ar draws y rhwydwaith HTC i helpu'r cyhoedd ddod o hyd i'r ffordd |
| 5 | Cefnogi Fforwm Mynediad Lleol Caerdydd a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau diddordeb a gwirfoddolwyr |
| 6 | Nodi a gwella cysylltiadau strategol a hygyrchedd y rhwydwaith |
| 7 | Gwella a chynyddu'r rhwydwaith llwybrau ceffylau |
| 8 | Gwarchod a gwella llwybrau o fewn datblygiadau newydd ac ar dir preifat |
| 9 | Rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth ar-lein i helpu'r cyhoedd 'Adrodd am Broblem' ar y rhwydwaith llwybrau |
| 10 | Adlinio Llwybr Arfordir Cymru ar hyd yr arfordir lle bynnag y bo modd |
| 11 | Gwella gwybodaeth am lwybrau, lleoedd i ymweld â nhw, gweithgareddau a digwyddiadau awyr agored |
| 12 | Hyrwyddo Codau Ymddygiad i'r cyhoedd barchu'r amgylchedd a defnyddwyr llwybrau eraill |

## Pam fod bwlch o 2 flynedd rhwng CGHT 2008-18 a CGHT 2020-30?

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw yn haf 2016 i Awdurdodau Lleol i'w cynghori ynghylch a ddylid creu CGHT newydd (a sut). Ystyriai tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Caerdydd y byddai angen adolygu'r CGHT 2008-18 cyntaf, a chynlluniwyd CGHT newydd, ond oherwydd materion staffio byddai angen swyddog arall. Yn dilyn gweithdrefn recriwtio, penodwyd swyddog yn hydref 2017.

Mae'r broses o gyflawni'r CGHT 2020-30 terfynol wedi bod drwy sawl cam cyn cael ei gyhoeddi (gweler Camau 1 - 6, tudalen 21). Oherwydd yr arolwg cyhoeddus a'r cyfnodau ymgynghori angenrheidiol yn ystod y broses, mae'r CGHT yn berthnasol i'r cyfnod 2020-30.

Fodd bynnag, rhaid nodi bod gwaith ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi parhau rhwng 2018 a 2020, gyda chynnal a chadw rheolaidd, gwaith cylchol, torri tymhorol, gwaith cyfreithiol ac ymatebion i faterion amrywiol a godir gan y cyhoedd, grwpiau a sefydliadau. Mae wedi parhau i weithio gyda materion HTC cysylltiedig o fewn datblygiadau newydd ac yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r pwyntiau hyn yn cysylltu â Strategaethau Allweddol 1 a 5 a Nodau Allweddol 1 a 6.

Mae'r tîm HTC hefyd wedi gweithio gydag adrannau mewnol ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys Cynllunio, Seilwaith Gwyrdd, y Gyfraith, Teithio Llesol ac ati. Maent wedi datblygu System Rheoli Digidol (SRhD) i gofnodi asedau, gan gynnwys dodrefn, arwyddion cyfeirio, arwynebau ac ati, er mwyn cynnal arolygon cyflwr cyfnodol o'r rhwydwaith, sy'n helpu i gynllunio cynnal a chadw.



Mynydd y Garth, Pentyrch

# 1. CYFLWYNIAD

*“Mae gan Gaerdydd tua 200km/124 milltir o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC), llwybrau cerdded a llwybrau ceffyl gyda chysylltiadau gwych â chefn gwlad, parciau a’r arfordir.”*



Bae Caerdydd adeg Machlud gan andrebelg



*Llwybr Rhymni*



*Wenallt – Llwybr Ceffyl caniataol*



*Mynydd y Garth*



*Llwybr Rhymni - Cors Crychydd*





## 1.1 Caerdydd, Prifddinas Cymru

Caerdydd yn ne-ddwyrain Cymru yw'r brifddinas ac mae ganddi boblogaeth o fwy na 345,000 o bobl, sydd wedi codi gan 3,500 y flwyddyn ers 2001*.

Mae gan Gaerdydd tua 200km/124 milltir o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC), llwybrau cerdded a llwybrau ceffyl gyda chysylltiadau gwych â chefn gwlad, parciau a'r arfordir; mae'r rhan fwyaf yng ngogledd a gogledd-orllewin Caerdydd (tudalen 18-19). Mae tîm HTC Cyngor Caerdydd yn gyfrifol am sicrhau bod y rhwydwaith Hawliau Tramwy wedi'i fapio'n briodol a bod y llwybrau'n cael eu cynnal ar gyfer defnydd diogel er mwyn i'r cyhoedd eu mwynhau. Yn ardaloedd dinesig eraill y ddinas, mae'r rhan fwyaf o'r llwybrau eraill yn balmentydd gerllaw ffyrdd (priffordd fabwysiedig), gan gynnwys defnydd a rennir o balmentydd sydd wedi'u gwahanu at ddefnydd cerddwyr a beicwyr, sy'n cysylltu o amgylch y ddinas.

Er ei bod yn cael ei hystyried yn ardal drefol, mae tua thraean o'r sir yn gefn gwlad â chyfoeth o harddwch naturiol. Mae 4 dyffryn afon a nant gwarchodedig, gyda llwybrau ar gyfer cerdded a beicio; Afon Elái ac Afon Taf yn llifo i mewn i Fae Caerdydd, Afon Ianw Rhymni a Nant Fawr. Mae gan Gaerdydd hefyd gymysgedd o natur i'w fwynhau, gyda 27 o Ardaloedd Cadwraeth, 2 safle â nodweddion bioamrywiaeth arbennig (ACA Coedwigoedd Ffawydd Caerdydd ger Tongwynlais ac Aber Afon Hafren sydd â statws SoDdGA, ACA, AGA a Ramsar^). Mae yna amrywiaeth o leoedd i ymweld â nhw sydd â threftadaeth hanesyddol gyfoethog, fel Castell Caerdydd, Castell Coch, bryngaerau o Oes yr Haearn, gweddillion Rhufeinig, llawer o safleoedd crefyddol a henebion hanesyddol eraill.

Mae Caerdydd wedi newid yn fawr dros y 10 mlynedd ddiwethaf, ac mae cyfleoedd a heriau newydd o'n blaen, gan gynnwys cyfreithiau newydd, mentrau newydd ac, yn bwysig, ardaloedd cymunedol sy'n tyfu o fewn Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Caerdydd. Mae'r CGHT hwn yn cynnwys ystyriaeth a chysylltiadau ag unrhyw fentrau newydd, cyfreithiau newydd a newidiadau eraill a allai fod wedi datblygu.

Mae gan Gaerdydd 4 Awdurdod Lleol cymdogol; Bro Morgannwg i'r gorllewin, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili i'r gogledd a Chasnewydd i'r dwyrain. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wella cysylltiadau llwybrau, cydlynu gwaith cynnal a chadw a helpu i hyrwyddo llwybrau pellter hir yn y dyfodol.



* O Gynllun Mabwysiedig [Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006-2026](#)

^ Gweler 'Talfyriadau a Geirfa', tudalen 2, hefyd CDLl (tudalen 43) A dolen i CNC
- Canfod ardaloedd o dir a môr gwarchodedig, Atodiad 1.

## 1.2 Tabl i ddangos defnyddwyr llwybrau cyfreithlon

| Hawl Dramwy Gyhoeddus: | Golwg ar fap y Cyngor (i-share) | Golwg ar fapiau AO (1:25,000) | Math cyfreithlon o ddefnyddiwr: | Disgrifiad: | Enghraifft o arwydd | Nifer y HTC | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwybr Cerdded | | | | Hawl dramwy i gerddwyr.<br>Mae ganddi statws cyfreithiol. | LLWYBR CYHOEDDUS PUBLIC FOOTPATH | 352 | 172km/ 107m |
| Llwybr Ceffyl | | | | Hawl dramwy ar gyfer marchogion, cerddwyr a beicwyr.<br>Rhaid i feicwyr ildio i bob defnyddiwr arall.<br>Mae ganddi statws cyfreithiol | Llwybr Marchogaeth | 13 | 5.50km/ 3.40m |
| Cilffordd Gyfyngedig | | + + + + | | Hawl dramwy ar gyfer marchogion, cerddwyr, ceffyl a chert, beicwyr a cerbydau modur.<br>Mae ganddi statws cyfreithiol. | CILFFORDD GYFYNGEDIG RESTRICTED BYWAY | 3 | 1.20km/ 0.75m |

## Mathau eraill o llwybrau


| Math y Llwybr | Golwg arfap y Cyngor (i-share) | Golwg arfapiau AO (1:25,000) | Disgrifiad: | Nifer y llwybrau | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Llwybr Cerdded Caniataol | | | Llwybrau yw'r rhain lle mae'r tirfeddianwr wedi rhoi caniatâd i'r cyhoedd eu defnyddio dan gytundeb penodol, ond nid yw'n hawl dramwy gyfreithiol | 7 | 17.7km/ 11m |
| Llwybr Ceffyl Caniataoly | | | | 1 | 0.15km/ 0.09m |
| Gorchymyn Addasu Map Diffiniol | | dd/b | Gweler y disgrifiad ar dudalen 12 | 34 | 16.2km/ 10.1m |





## 1.3 Beth yw Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC)

Ystyr 'Hawl Dramwy Gyhoeddus' yw priffordd y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w defnyddio a'i ailddefnyddio am byth. Mae gan y llwybrau hyn statws cyfreithiol^ ac mae ar Gyngor Caerdydd rwymedigaeth statudol i'w cofnodi a'u cynnal. Gweler tudalen 22 a 23 ar gyfer diffiniadau llwybrau, a'r adrab Holi ac Ateb hefyd am 'ganllaw cyffredinol' ar dudalennau gwe HTC.



Mynydd y Garth gan Tricia Cottnam



Llwybr Elái



Gât Mochyn Pentyrch

## 1.4 Map Diffiniol (MD)

Sefydlwyd y **Map Diffiniol (MD)** yn ôl Pennod 97 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a lluniwyd mapiau ar gyfer ardal Caerdydd ar y dyddiad perthnasol ym mis Medi 1954. Mae'r MD yn gofnod cyfreithiol ac mae'n cynnwys Datganiadau ar gyfer pob llwybr, gyda chyfres o fapiau yn arddangos y llwybrau. Eglura pob Datganiad Llwybr aliniad y llwybr, fel arfer cyfeirnod grid yr OS a'r arwyneb, lled y llwybr ac unrhyw giatiau/ camfeydd.


Eithriwyd rhai ardaloedd trefol, fel y Rhath, Rhiwbeina a Llanisien, rhag cofnodi llwybrau ar y Map Diffiniol yn 1954; fodd bynnag, gwnaeth Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 Adran 55(3) hi'n ofynnol i'r holl ALlau fapio'r holl ardaloedd a eithriwyd yn y Map Diffiniol gwreiddiol yn 1954. Cofnodwyd y llwybrau hyn ar y Map Ardal Eithriedig yn 2008.


Mae **Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol (GAMD)** yn orchmynion cyfreithiol i ganiatáu i'r MD gael ei ddiwygio. Pan gadarnheir gorchymynion, bydd y MD yn cael ei ddiweddaru (ynghyd ag ardaloedd eithriedig) a'u hanfon at yr Arolwg Ordnans (OS); caiff y rhain eu hailargraffu o bryd i'w gilydd. Y raddfa sydd ei hangen ar gyfer Map Diffiniol yw 1:25,000 (tua 2½ modfedd/ 6.4cm y filltir neu 4cm y km). Gweler Map Diffiniol Caerdydd ar system fapio'r Cyngor.

^ **Rights of Way – A Guide to Law and Practice** (John Riddall a John Trevelyan), 'Mae'r Ddeddf Hawliau Tramwy yn gymysgedd o Gyfraith Gyffredin (cyfraith a ddiffinnir gan ddyfarniadau mewn achosion llys) a Chyfraith Statud sydd wedi'i chynnwys mewn Deddfau Seneddol ac is-reoliadau.'


Cyngor Caerdydd - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2020-30

## Map 1: Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus Caerdydd (cyfredol yn 2019)







## Map Gogledd Orllewin Caerdydd





## Map De Orllewin Caerdydd



Cyngor Caerdydd - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2020-30




## Map Gogledd Ddwyrain




## Map De Ddwyrain Caerdydd

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau awyr agored a thaflenni llwybrau, ewch i:
[www.outdoorcardiff.com/cy/](www.outdoorcardiff.com/cy/)

## 1.5 Pwy all ddefnyddio pa lwybr?

### Llwybrau Cerdded

Hawl dramwy I gerddwyr. Mae ganddi statws cyfreithiol.

### Llwybrau Ceffyl


Hawl dramwy ar gyfer marchogion, cerddwyr a beicwyr. Rhaid i feicwyr ildio i bob defnyddiwr arall. Mae ganddi statws cyfreithiol.

### Cilffyrdd Cyfyngedig

Hawl dramwy ar gyfer marchogion, cerddwyr, ceffyl a chert, beicwyr a cerbydau modur. Mae ganddi statws cyfreithiol.

### Cilffyrdd ar agor i bob traffig (CAABT)

Hawl dramwy sydd ar agor i bob defnyddiwr, gan gynnwys cerbydau a dynnir gan geffyl a cherbydau modur. Mae ganddi statws cyfreithiol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi'u categoreiddio fel CAABT yng Nghaerdydd.



*Llun:* Gwirfoddolwyr Cadwraeth Caerdydd

### Llwybrau Caniataol

Mae'r rhain yn llwybrau lle mae tirfeddiannwr wedi rhoi caniatâd i'r cyhoedd eu defnyddio dan gytundeb penodol, ond nid ydynt yn hawliau tramwy cyfreithiol.

### Traciau Beicio

Mae'r rhain yn llwybrau a grëwyd ar gyfer beiciau a cherddwyr. Er eu bod yn rhoi hawliau cyfreithiol i ddefnyddwyr y llwybr, mae'r llwybrau hyn wedi'u heithrio o'r MD ar hyn o bryd.

### Prifffordd Fabwysiedig (ffordd)

Mae hwn yn derm am briffordd a gynhelir yn gyhoeddus sydd ag atebolrwydd cynnal ac arwyneb uwch na Hawl Dramwy Gyhoeddus safonol.

### Troedffordd

Palmant ger Priffordd Fabwysiedig; gall fod ar gyfer cerddwyr yn unig, neu wedi'i arwyddo at ddefnydd a rennir neu wedi'i rannu ar gyfer cerddwyr/beicwyr.

### Lonydd Gwyrdd

Nid oes ystyr cyfreithiol i'r term hwn, ond mae wedi'i ddefnyddio fel disgrifiad ffisegol o lonydd sydd â llystyfiant dan draed neu sydd wedi'u hamgáu gan lwyni; gan hynny defnyddir y term 'gwyrdd'. Gall y rhain fod yn ddarnau o briffordd fabwysiedig hanesyddol (e.e. ffyrdd porthmon), ond nid yw'r arwyneb yn addas ar gyfer cerbydau modur.

### Mynediad a thir preifat

Efallai y bydd gan rai llwybrau hawliau mynediad preifat fel mynediad cerbydol i eiddo neu drac fferm, mynediad i geffylau i iard lifrai, ayb. Mae bron pob llwybr HTC yn croesi tir preifat yn hytrach na bod tir yn eiddo i Gyngor Caerdydd.





### Tir Mynediad Agored

Mae ardaloedd o gefn gwlad agored, tir comin cofrestredig neu dir penodedig (dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) ar agor i bobl gerdded, rhedeg, crwydro, dringo, gwylio bywyd gwyllt ac ati, heb orfod aros ar y llwybrau. Mae CNC yn rheoli 7 % o dir mynediad agored Cymru, gan gynnwys 120,000ha o goetir, 42 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol a 5 Canolfan Ymwelwyr. Yng Nghaerdydd, mae CNC yn rheoli coetiroedd gan gynnwys; Tyn-y-Coed, Fforest Fawr, Coed-y-Gedrys a Chefn Mabli.

NODYN: Mae rhai priffyrdd yn eiddo i sefydliadau eraill nad ydynt yn briffyrdd mabwysiedig.

## 1.6 Pwy sy'n cynnal ein HTC?

### Dyletswyddau statudol a gwaith dewisol

Rhaid i dîm HTC Cyngor Caerdydd gyflawni rhai dyletswyddau fel rhai statudol (megis cyfeirbwyntiau, torri llystyfiant arwyneb ar hyd llwybrau a diweddaru'r Map Diffiniol), tra bod gwaith arall yn ddewisol ond yn ddefnyddiol (fel creu llwybrau cylchol a darparu taflenni). Gweler tudalennau gwe HTC am fwy o wybodaeth.

### Cyfrifoldebau tirfeddianwyr

Rhaid i dirfeddianwyr sicrhau nad yw llwybrau sy'n croesi eu tir yn cael eu rhwystro. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dodrefn mynediad, fel camfeydd a giatiau, yn cael eu cynnal a'u cadw a'u bod yn ddiogel i'r cyhoedd eu defnyddio. Gweler y 'canllawiau cyffredinol' ar dudalennau gwe HTC.

## 1.7 Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl)

Mae'r FfMLl yn corff ymgynghori cynghorol a grëwyd dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (a 94-95). Mae'r corff yn grŵp o wirfoddolwyr a benodwyd sydd ag amrywiaeth o ddiddordebau yn y rhwydwaith HTC ac sy'n cyfarfod bob chwarter fel arfer. Sefydlwyd y FfMLl ym mis Hydref 2003 ac mae'n cael ei ailgyfansoddi bob 3 blynedd yn ôl y gyfraith. Cynrychiolir y grwpiau canlynol:

- Cerddwyr
- Marchogion
- Beicwyr
- Chwaraeon Dŵr
- Tirfeddianwyr
- Swyddogion Cefnogi nad ydynt yn Aelodau o'r Fforwm ond sy'n cynghori'r Fforwm Mynediad Lleol ar gais, gan gynnwys Swyddogion Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Swyddog Cydraddoldeb Cyngor Caerdydd ac aelodau o Grŵp Ffocws Mynediad Cyngor Caerdydd, y Tîm Teithio Llesol a Sustrans

Mae'r FfMLl yn ystyried materion pwysig sy'n ymwneud â rheolaeth tir ac, yn bwysicach oll, yr angen i gadw harddwch naturiol ardal benodol. Gall hyn gynnwys hysbysu swyddogion HTC am broblemau mynediad (llwybrau wedi'u rhwystro gan gatiau clo, arwynebau gwael ar lwybrau a fyddent yn ddefnyddiol i greu cyswllt strategol petaent yn cael arwyneb newydd, ac ati) neu ymgynghori â'r rhain ynghylch ceisiadau cynllunio penodol lle mae llwybrau'n croesi safle a bydd angen eu hadlinio er mwyn eu cadw mewn coridorau gwyrdd.

Yn gyffredinol, mae'r FfMLl yn chwarae rôl allweddol wrth helpu i sicrhau bod cynlluniau cyflawni'r CGHT yn parhau'n berthnasol a bod nodau allweddol yn cael eu cyflawni mewn da bryd, yn ogystal â chynnig eu cymorth/harbenigedd ar brosiectau amrywiol.

### 1.8 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

CNC yw'r prif ymgynghorydd amgylcheddol i Lywodraeth Cymru ac eraill. Y sefydliad yw prif reoleiddiwr amgylcheddol Cymru hefyd, gyda'r nod o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (RhANG) ar draws ei holl swyddogaethau. Mae'n ased cyhoeddus pwysig, a'i flaenoriaeth yw gwneud yr ased hwn ar gael, yn ddeniadol ac yn groesawgar i bobl.



*Mynydd y Garth gan hikerchick_hayles*



# 2. PAM EIN BOD NI'N CREU CGHT NEWYDD?

***"Mae Cynllun CGHT 2020-30 yn nodi sut y bydd y tîm HTC yn dynodi, yn blaenoriaethu, ac yn cynllunio gwelliannau ar draws y rhwydwaith am y cyfnod."***



Mwynhewch yr awyr iach

## Cyflawni Camau Allweddol y CGHT

Ar sail arweinad Llywodraeth Cymru mae'r diagram isod yn amlinellu Camau amrywiol y broses o gyflawni CGHT Caerdydd 2020-30:








## 2.1 Pam ein bod ni'n creu CGHT newydd?

Gosodwyd rhwymedigaeth gyfreithiol ar bob Awdurdod Lleol i wneud CGHT 10 mlynedd dan Adran 60 (1) Deddf CROW 2000. Cyhoeddodd Caerdydd ei CGHT cyntaf ym mis Mehefin 2008, a helpodd y tîm HTC i flaenoriaethu a chynllunio gwaith ar draws y rhwydwaith dros gyfnod o 10 mlynedd.

Dan Adran 60 (3) y Ddeddf CROW 2000, mae yna bellach gyfrifoldeb cyfreithiol i adolygu'r CGHT cyntaf, gwneud asesiad newydd ac ystyried a ddylid ailgyhoeddi CGHT newydd.

Mae llawer o newidiadau wedi bod dros y 10 mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys cyfraith, polisi a mentrau, felly cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) ganllaw ar yr hyn y mae angen ei ystyried ar gyfer gwneud CGHT newydd. Yn dilyn ystyriaeth briodol o newidiadau deddfwriaethol amrywiol, gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Deddf Cydraddoldeb 2010 a gwerthfawrogiad o'r heriau economaidd presennol, penderfynodd Cyngor Caerdydd lunio CGHT newydd ar gyfer 2020-30.

Mae Cynllun CGHT 2020-30 yn nodi sut y bydd y tîm HTC yn dynodi, yn blaenoriaethu, ac yn cynllunio gwelliannau ar draws y rhwydwaith am y cyfnod. Nodir y cynigion ar gyfer rheoli rhwydwaith HTC Caerdydd yn Strategaethau Allweddol a Nodau Allweddol y **Datganiad Gweithredu**, yn adrannau 4 a 5. Nodwyd y rhain o ganlyniad i'r broses werthuso ac maent yn bwysig i reoli a gwella rhwydwaith HTC Caerdydd yn y dyfodol. Noda'r Datganiad Gweithredu yr hyn y bwriadwn ei gyflawni dros gyfnod o 10 mlynedd a bydd yn helpu i nodi blaenoriaethau yn y Cynllun Cyflenwi, a fydd yn seiliedig ar gyllid ac adnoddau staff.


Er mwyn mesur beth mae'r cyhoedd yn ei feddwl o'n rhwydwaith HTC cyfredol a syniadau ar gyfer gwneud gwelliannau, cynhaliwyd arolwg cyhoeddus - Gweler y manylion yn yr Asesiad Newydd (3.3, tudalen 35)


## 2.2 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Cynhaliwyd proses sgrinio AAS gan Dîm Datblygu Cynaliadwy'r Cyngor a gadarnhaodd nad oedd angen AAS ar gyfer CGHT 2020-30 (gweler Atodiad 60). Bydd y ddogfen CGHT yn llywio Cynlluniau Cyflawni blynyddol a fydd yn cynnwys projectau safle-benodol i wella a diogelu'r amgylchedd.


Bydd y Cynlluniau Cyflawni yn gofyn am broses sgrinio AAS, a chynhelir hon cyn cytuno ar y rhaglen. Gallai fod angen trwyddedau a/neu ganiatâd ar brojectau penodol i gyflawni gwaith, felly bydd swyddogion yn cysylltu â sefydliadau a Swyddogion y Cyngor yn ôl y gofyn (e.e. Cadw, CNC, Ecolegydd Cyngor Caerdydd, Parciau ac ati).

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 1af Caerdydd – cyhoeddwyd yn 2008




Arolwg Cyhoeddus a chanlyniadau - 2018






# 3. ASESIAD NEWYDD AC AROLWG CYHOEDDUS


*"Cafodd yr Asesiad Newydd ar gyfer Cynllun CGHT 2020-30... Gwerthusiad o'r CGHTC 2008-18, cyflwr presennol y rhwydwaith ac anghenion a'r cyfleoedd yn y dyfodol."*



Jenn Griffiths yn mwynhau'r Llwybr Cerfluniau (Fforest Fawr) Tongwynlais

## Asesiad Newydd ac arolwg cyhoeddus

Yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru, aethpwyd drwy'r camau canlynol:




Cafodd yr Asesiad Newydd ar gyfer Cynllun CGHT 2020-30 ei ddrafftio, ei gyhoeddi a'i ddosbarthu i ymgyngoreion, ei hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol (gwefan y Cyngor, Twitter, ayb.) a'i ddarparu mewn cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus mewn llyfrgelloedd a hybiau cymunedol. Gellir gweld rhagor o fanylion am y broses hon yn nogfen gefnogol CGHT **Cam 4 – Asesiad Newydd** ar dudalen we CGHT.

Yn fyr, rhannwyd yr Asesiad Newydd yn dair prif adran:

- **Gwerthuso sut cyflawnwyd y CGHT cyntaf, 2008-18** (Cam 3 – gweler 3.1)
- **Gwerthuso cyflwr presennol y rhwydwaith a'i gofnod cyfreithiol** (gweler 3.2)
- **Gwerthuso anghenion a chyfleoedd y dyfodol** (gweler 3.3)

Mae'r tudalennau canlynol yn tynnu sylw at ganlyniadau'r adolygiad 1af o'r CGHT, yr arolygon cyhoeddus a'r gwerthusiad o anghenion y cyhoedd yn y dyfodol i hysbysu casgliadau'r Asesiad Newydd. Defnyddiwyd y casgliadau hyn yn y **Datganiad Gweithredu** (adran 4) i helpu i ddatblygu'r **Strategaethau Allweddol** 10 mlynedd nesaf, fel yr amlinellir, a datblygu'r **Nodau Allweddol** hirdymor (adran 5).

## 3.1 Gwerthuso sut cyflawnwyd y CGHT cyntaf, 2008-18 (Cam 3)

Yn wreiddiol lluniwyd y CGHT cyntaf yn 2006 a chyhoeddwyd CGHT drafft yn 2007. Yna cafodd fersiwn derfynol ei llunio, ei chymkeradwyo a'i rhoi ar waith; cyhoeddwyd y fersiwn derfynol ym mis Mehefin 2008. Mae'r adolygiad o nodweddion y CGHT cyntaf yn cynnwys y nodau allweddol, camau gweithredu wedi'u targedu a thasgau a dangosyddion perfformiad. Dylid nodi bod tasgau statudol yn cael eu cynnwys yn CGHT 2020-30, a hefyd gellir cynnwys unrhyw dasgau eraill a all fod yn barhaus, heb eu cwblhau, neu heb eu cychwyn. Wrth adolygu'r CGHT 1af, ystyriwyd nifer o ffactorau a oedd yn effeithio ar gyflenwi tasgau penodol, fel y nifer uchel o dasgau i'w cwblhau, diffyg cyllid grant neu newidiadau staff ac ati. Oherwydd y ffactorau hyn, ni allai'r holl dasgau gael eu cwblhau a/neu adolygu:

- Crynodeb o'r Adolygiad o'r CGHT 1af, gydag Uchafbwyntiau a chyflawniadau allweddol CGHT 2008-18 - mae 16 o nodau allweddol yn Atodiad 3
- Ceir adolygiad llawn o CGHT 2008-18 ar dudalen we CGHT.






## Canlyniadau cryno o'r nodau, gweithredoedd a thasgau yn CGHT 2008-18

Yn fyr, roedd 16 o nodau allweddol a 63 o gamau gweithredu wedi'u targedu, a thrwy'r rhain, roedd 213 o dasgau. O'r 213 o dasgau:

- Cwblhawyd 69
- Cwblhawyd 37 yn sylweddol
- Cwblhawyd 20 yn rhannol
- Mae 13 ar y cam cynllunio
- Cychwynnwyd 27 o dasgau
- Ni ddechreuwyd 47

### Golwg enghreifftiol ar fapio i-share ar wefan Cyngor Caerdydd



## 3.2 Gwerthuso cyflwr presennol y rhwydwaith a'i gofnod cyfreithiol

Roedd yr adran hon yn werthusiad o gyflwr presennol y rhwydwaith, cyflawnrwydd a chywirdeb y Map Diffiniol a'r Datganiad a rheolaeth unrhyw newidiadau i'r rhwydwaith HTC. Cynhaliwyd y gwerthusiad trwy ddefnyddio gwybodaeth a roddwyd gan y tîm cynnal a chadw HTC ac eraill, gan gynnwys aelodau FfMLl a'r Is-grŵp CGHT. Codwyd materion hefyd gan y cyhoedd.

### 3.2.1 Cyflwr presennol y rhwydwaith

Ers cyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2008-18, mae tîm Priffyrdd y Cyngor wedi gweithredu system reoli ddigidol (DMS; AMX ar hyn o bryd - Arbenigwr Rheoli Asedau), a ddefnyddir i alluogi rheoli a chynnal y rhwydwaith priffyrdd yn fwy effeithlon a gwybodus. Mae'r feddalwedd hon yn cael ei datblygu ymhellach i reoli a chynnal y rhwydwaith HTC a bydd yn rhan bwysig ac annatod o welliant HTC yn y dyfodol. Caiff ei chynnwys yn CGHT 2020-30 Strategaeth Allweddol 1 a Nod Allweddol 1. Ceir manylion am y rhain yn adrannau 4 ac 5, yn y drefn honno. Hefyd, ceir dadansoddiad SWOT o'r Strategaeth Allweddol hon yn Atodiad 4.

Yn y dyfodol, defnyddir y DMS i storio'r holl ddata rhwydwaith, gan gynnwys:

- Data cyflwr llwybrau a seilwaith (fel camfeydd, giatiau a phontydd)
- Lleoliad y seilwaith
- Manylion perchnogaeth tir
- Cofnodion cyfreithiol yn ymwneud â llwybrau a materion
- Gohebiaeth

Dros amser, bydd datblygu'r DMS yn galluogi'r tîm HTC i fod yn fwy gwybodus, er mwyn cynllunio rheolaeth fwy priodol, penodol ac effeithiol o'r rhwydwaith. Mae hon yn dasg flaenoriaeth yn CGHT 2020-30 (Nod Allweddol 1).





Cyngor Caerdydd - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2020-30

### 3.2.2 Y cofnod cyfreithiol

Amlygodd yr Adolygiad Cryno o CGHT 2008-18 (Cam 3) hyn yn Nod Allweddol 1 - 'Map Diffiniol (MD); Datrys anghysondebau cyfredol a chynhyrchu Map Diffiniol cyfredol i Gaerdydd.

Noda'r adolygiad:

- Cwblhawyd pob MD a datganiad drafft gan Orchmynion Addasu'r Map Diffiniol (GAMD). Gellir gweld y map diwygiedig yn 'fyw' ar ishare Cyngor Caerdydd
- Nodi llwybrau digofrestredig a chilffyrdd coll – hawliwyd a chadarnhawyd 23 llwybr o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- Roedd y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn arf defnyddiol i ddatblygwyr i'w cynghori ynghylch rhwymedigaethau statudol i wirio ardal ddatblygu bosibl am Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac ymgynghori â thîm HTC. Mae Nodiadau Canllaw Technegol HCT (TGN) bellach yn disodli'r CCA HTC, ac mae'r tîm Cynllunio yn eu rhoi i Ddatblygwr ar y cam ymgeisio.

Dengys yr adolygiad o CGHT 2008-18 fod y cofnod cyfreithiol yn cael ei reoli'n effeithiol; mae'r adolygiad yn cynnwys gwerthusiad a wnaed drwy ddefnyddio gwybodaeth a roddwyd gan y tîm cynnal a chadw HTC ac eraill, gan gynnwys aelodau FfMLl a'r is-grŵp CGHT.


Parha'r cofnod cyfreithiol i fod yn elfen allweddol o CGHT 2020-30 ac mae'n ymddangos yn Strategaethau Allweddol 4 a 5 o'r Datganiad Gweithredu a Nod Allweddol 2, 6 ac 8.



*Caeau Llandaf @onemorebiscuitplease*

## Map 2: Map Ardal Cymdogaethau Caerdydd

**Fel rhan o'r cam Asesiad Newydd, bydd ymgynghoriadau ac arolygon yn cael eu cynnal ym mhob un o'r 6 Ardal Cymdogaeth.**








## 3.3 Anghenion a chyfleoedd yn y dyfodol

Archwiliwyd i ba raddau mae rhwydwaith HTC Caerdydd yn diwallu anghenion presennol y cyhoedd ac anghenion tebygol y dyfodol, a'r cyfleoedd a ddarparwyd ar gyfer gwneud ymarfer corff a mathau eraill o hamdden a mwynhad yn yr awyr agored, yn awr ac i'r dyfodol.

### 3.3.1 Arolwg cyhoeddus

Cynhaliwyd arolwg cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth am rwydwaith HTC Caerdydd, i gael adborth am yr hyn yr oedd pobl yn ei feddwl am y rhwydwaith presennol, a rhoi eu syniadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

### 3.3.2 Sut y gwnaethom gynnal yr arolwg

Roedd yr ymgynghoriad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Caerdydd (HTC) ar agor o 10 Ebrill i 14 Hydref 2018 ac ar ffurf arolwg electronig. Anfonwyd yr arolwg i restr o 270 o ymgyngoreion (gan gynnwys y rheiny a oedd yn ofynnol a pherthnasol i Ddeddf CROW 2000, adran 61(1)). Cyfeiriwyd at yr arolwg hefyd ar dudalennau gwe HTC Cyngor Caerdydd, CGHTC, Holi Caerdydd, ynghyd â gwefan Awyr Agored Caerdydd.

Cynhaliodd tîm Cyfathrebu Cyngor Caerdydd ymgyrch drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfrifon Twitter a Facebook Cyngor Caerdydd, gyda chynulleidfa o fwy na 45,000 o ddilynwyr ar Twitter a 21,000 ar Facebook. Roedd y bobl a ymatebodd i'r ymgyrch CGHT ar Twitter yn bennaf, gyda mwy na 480 o gliciau, ail-drydar neu rannu.

Ar ben hynny, dosbarthwyd 1,500 o gopïau caled hefyd mewn adeiladau cyhoeddus yn y ddinas gan gynnwys llyfrgelloedd, hybiau, canolfannau hamdden, canolfannau cymunedol a phrif adeiladau'r cyngor.

Er mwyn cyrraedd cymunedau ledled Caerdydd, cynhaliwyd rhaglen o sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb mewn Hybiau a llyfrgelloedd yng Nghaerdydd i hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac i annog pobl i ddechrau cymryd rhan yn yr arolwg.

Ym mis Awst a Medi 2018 cynhaliwyd y sesiynau hyn yn:

1) Hyb Treláí a Chaerau
2) Hyb Llanrhymni
3) Hyb Tredelerch
4) Hyb Llanisien
5) Hyb Llanedern
6) Hyb Llaneirwg
7) Hyb y Tyllgoed
8) Hyb Ystum Taf a Gabalfa
9) Llyfrgell yr Eglwys Newydd
10) Hyb Star
11) Hyb Grangetown
12) Llyfrgell Rhiwbeina
13) Hyb Butetown
14) Llyfrgell Rhydypennau
15) Hyb y Llyfrgell Ganolog
16) Llyfrgell Radur

### 3.3.3 Arolwg CGHT – sut mae ymatebion wedi newid

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau aml-ddewis a chwestiynau agored, felly nid yw'r atebion yn dod i 100 %. Mae Adroddiad Canlyniadau'r Arolwg CGHT ar gael i'w weld ar y wefan CGHT. Defnyddiwyd 'Mannau eraill' i bennu lefelau o weithgarwch y tu allan i sir Caerdydd.

- Roedd cyfanswm o 1,018 o ymatebion arolwg, o'i gymharu â 673 yn 2005*.
- 57.8 % a ymatebodd yn defnyddio mannau awyr agored yng Nghaerdydd bob dydd (C4), sydd yn gynnydd sylweddol o 16.8 % oddi ar 2005*.
- Roedd cynnydd cyffredinol yn y duedd gan bobl i ymweld â mannau awyr agored y tu allan i Gaerdydd (C4), gyda 27.8 % yn ymweld o leiaf unwaith yr wythnos (cynnydd o 8.2 % oddi ar 2005*) a 27.9 % yn ymweld ar benwythnos (categori newydd yn 2018). Yn gyffredinol yng Nghymru, roedd 22 % yn ymweld yn aml â mannau awyr agored a 62 % yn anaml.
- Cerdded oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd (C5), gyda 88.2 % yng Nghaerdydd (cynnydd o 7.2 % oddi ar 2005*) a 60.2 % mewn llefydd eraill.
- Roedd cynnydd arwyddocaol yn nifer y bobl a oedd yn defnyddio mannau awyr agored er mwyn Ymlacio/teimlo'n well; 66.6 % yng Nghaerdydd o'i gymharu â 39.2 % yn 2005* (62.9 mewn llefydd eraill o'i gymharu â 29.3 % yn 2005*), gan awgrymu bod pobl yn mwynhau'r awyr agored yn fwy.
- Yn gymdeithasol (cyf C6), roedd cynnydd nodedig o ychydig dros 26 % o'r rheiny a oedd yn defnyddio'r llwybrau Ar Eu Pennau Eu Hunain yng Nghaerdydd sef 58.4 % (39 % yng Nghymru yn gyffredinol) a lleihad o 7.5 % o ran defnyddio llwybr gyda phartner o'i gymharu â 2005*. Roedd 9.4 % o ymatebwyr yn defnyddio llwybrau yng Nghaerdydd fel aelod o sefydliad o'i gymharu â 8.8 % yn 2005*; yn y ddau arolwg, y grŵp mwyaf poblogaidd oedd Cymdeithas y Cerddwyr.
- Yn C8, gofynnon ni pa lwybrau HTC nad oedd pobl yn gallu eu cyrchu. Rhoddodd ychydig o dan 50 % o ymatebwyr 3 phrif reswm; gordyfiant ar lwybrau, dim digon o wybodaeth a diffyg arwyddion ar lwybrau. Roedd y canlyniadau yn eithaf tebyg yn 2005*.
- Gofynnon ni beth arall sy'n eich atal (C9); nododd 28.6 % faterion diogelwch (gyda 29.1 % yn nodi diogelwch yn C8), yn sylweddol is na 46.3 % yn 2005*, sy'n awgrymu bod pobl bellach yn teimlo'n saffach ar lwybrau.

Defnyddiwyd cwestiynau agored i annog pobl i nodi problemau cynnal a chadw penodol (C8a), i weld beth sy'n atal pobl rhag defnyddio llwybrau yng Nghaerdydd (C9) ac i holi am sylwadau (C11). Arweiniodd hyn at rai pwyntiau penodol a syniadau ar gyfer eu hystyried yn y CGHT newydd, er enghraifft:

- **Materion cynnal (C8a)**; 'Unwaith yr eir dros y gamfa, nid yw'n amlwg i le mae'r llwybr yn arwain' (Pentyrch 19). Awgryma hyn efallai fod angen i ni wella ein harwyddion. Roedd hefyd sawl llwybr a ddisgrifiwyd oedd yn gofyn am sylw, e.e. 'gordyfiant...i'r de o Heol Llantrisant' ger/ar Llanilltern 20.
- **Beth sy'n atal defnyddio'r llwybrau (C9);** 'dim digon o wybodaeth ar gael', 'byddai'n braf cael rhestr ar y wefan sy'n rhwydd dod o hyd iddi a phostiad wedi ei binio ar Facebook.' Mae hyn yn awgrymu bod angen i ni wella mynediad at fapiau/gwybodaeth am ein rhwydwaith HTC.
- **Sylwadau (C11);** cynhyrchodd y cwestiwn hwn amrywiaeth o syniadau, er enghraifft 'mwy o gydweithio gydag awdurdodau lleol eraill gerllaw..', 'Gwneud mwy o lwybrau ar gael i farchogion..', '..gwych pe byddai cyfeiriadur penodol ar gael i ddefnyddwyr cerbydau symudedd..' 'Pam ddim annog gwirfoddoli yn yr un modd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol', '..mwy o lwybrau cerdded cylchynol y gellir eu cyrchu o drafnidiaeth gyhoeddus.'

* Arolwg Hawliau Tramwy 2005 (canlyniadau)
^ NRW Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014/15 – ffeithiau allweddol





Roedd nifer sylweddol o sylwadau yn ymwneud â Theithio Llesol yn nodi'r angen am fwy o lwybrau beicio. Hefyd cafwyd sylwadau cadarnhaol a negyddol am Daith Taf (nad yw'n HTC) a beicio'n gyffredinol ar y ffordd.

- **Gwahanu;** '...rhaid i wahanu gael ei orfodi er mwyn gwahaniaethu rhwng beicwyr a cherddwyr.' 'Dylai pob datblygiad newydd yng Nghaerdydd gael llwybrau a llwybrau beicio ar wahân.'
- **Diogelwch/parch i ddefnyddwyr eraill ar lwybrau;** '...mwynhad a diogelwch ...effeithir yn negyddol arnynt gan feicwyr yn mynd yn rhy gyflym.' '...yn Fforest Fawr... mae beicwyr mynydd...yn hedfan lawr y llwybrau a grëwyd ganddynt ar gyflymder ... gan fygwth gwrthdrawiadau â phobl sy'n defnyddio'r fforest yn gyfreithiol.'
- **Llwybrau defnydd a rennir**; '...peryglus ac yn aml yn diweddu mewn dadl gyda beiciwr sy'n mynd yn rhy gyflym.' 'Cerddwyr yn rhes ar draws lled cyfan llwybr sydd i'w ddefnyddio hefyd gan feicw**yr.'**
- **Mwy o lwybrau beicio;** 'Rwy am feicio i'r gwaith ond mae diffyg darpariaeth ddiogel a braf yn f'atal i...' 'Mae angen mwy o lwybrau beicio oddi ar y ffordd i gymudwyr a mynediad i feiciau i orsafoedd trenau...'


Caiff y materion hyn eu pasio i gydweithwyr sy'n ymwneud â beicio yng Nghaerdydd. Byddwn hefyd yn cydweithio i fynd i'r afael a materion ar Lwybrau Ceffylau a llwybrau posib y gellid eu huwchraddio o lwybrau troed yn Llwybrau Ceffylau (gweler Amcan Allweddol 7 y Cynllun Cyflawni).

See full ROWIP Survey Results 2018 on the ROWIP web page; this also includes the full ROWIP Survey Spring/Summer 2018 consultation (in appendix).

### 3.3.4 Cystadleuaeth Instagram

Wrth arwain at ddiwedd yr arolwg CGHT, cynhaliodd y Tîm Cyfathrebu gystadleuaeth Instagram (gan ddefnyddio #CGHTCaerdydd) er mwyn i'r cyhoedd gyflwyno lluniau y gallwn eu defnyddio mewn adnoddau hysbysebu, gyda'r enillydd yn derbyn talebau gwerth £100 i Mountain Warehouse. Cafodd 185 o luniau eu cyflwyno, 5 eu rhoi ar y rhestr fer a dros gyfnod o wythnos gofynnwyd i ddilynwyr 'hoffi' eu hoff lun. Roedd y llun budduol o Daith Taf wrth y Gored Ddu gan @welsh_poppy ac mae i'w weld isod gyda'r 4 arall a gyrhaeddodd y rownd derfynol.


Lluniau - 5 yn rownd derfynol cystadleuaeth Instagram


1.


2.


3.


4.


5.

1. Taith Taf, Y Gored Ddu @welsh_poppy
2. Castell Coch @Gale_Jolly_photos
3. Gwiwer yng Nghefn Onn @snapshotwales
4. Caeau Llandaf @onemorebiscuitplease
5. Parc y Rhath @andrebelg

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

Agored Open

Teg Fair

Ynghyd Together

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together


Survey ran from
10/04/18 - 14/10/18

# Adroddiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018

## CANLYNIADAU'R AROLWG

*Rhannodd **1,018** o ymatebwyr eu barn drwy ein harolwg CGHT.*

*Yr ystod oedran 35-54 oedd yr uchaf **44.4%***




*Roedd **57.8%** yn fenywaidd*

*Roedd gan **9.3%** afiechyd neu gyflwr iechyd hirdymor*

*Roedd **91.1%** yn defnyddio parc lleol neu safle lleol arall yng Nghaerdydd*

*Roedd **89.6%** yn defnyddio traeth, môr neu arfordir mewn 'mannau eraill'*

*Roedd tua un o bob wyth **(13.5%)** yn rhan o sefydliad neu grŵp â diddoreb*

*Roedd ymatebwr bron ddwywaith yn fwy tebygol o ddefnyddio tir preifat **mewn mannau eraill - 27.9%** nag y byddent o fewn **Caerdydd - 14.8%***

*Llwybrau troed oedd yr hawliau tramwy cyhoeddus mwyaf poblogaidd a ddefnyddiwyd yng **Nghaerdydd - 89.1%** yn ogystal â **mewn mannau eraill - 60.2%***

*Cerdded oedd y rheswm mwyaf poblogaidd dros ddefnyddio'r llwybrau hyn yng **Nghaerdydd - 88.2%** ac **mewn mannau eraill - 82.0%***

*Roedd tua thraean yn mwynhau llwybrau at ddibenion gwylio adar/bywyd gwyllt yng **Nghaerdydd - 30.6%** ac **mewn mannau eraill - 33.0%**; roedd canlyniadau tebyg ar gyfer cerdded y ci yng **Nghaerdydd - 30.2%** ac **mewn mannau eraill - 27.0%***

*Roedd defnyddio llwybrau ar eich pen eich hun ar ei uchaf o fewn **Caerdydd - 58.4%***

*Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn defnyddio llwybrau gyda phartner **mewn mannau eraill - 53.1%***

*O blith rhwystrau at ddefnyddio llwybrau, y tri uchaf oedd:- Gordyfiant ar y llwybrau **(48.7%)**, Dim digon o wybodaeth am y llwybrau sydd ar gael **(48.2%)** a dim digon o arwyddbyst ar y llwybrau/maent yn anodd eu dilyn **(47.0%)***

Cyngor Caerdydd - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2020-30

### 3.3.6 Gwerthuso – Pwyntiau pellach i'w nodi:

Ar wahân i'r ymgynghoriadau, mae nifer o ffactorau'n debygol o effeithio ar anghenion y rhwydwaith HTC yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Bydd angen i'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol adlewyrchu'r cynnydd cyson yn nifer y bobl sy'n byw a gweithio yng Nghaerdydd, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn ardaloedd tai cymunedol a thwf busnes mewn 10 safle strategol yn y CDLl (gweler Map 3 am leoliadau).
- Mae ymchwil cenedlaethol gan Sustrans wedi dangos bod mwy o bobl yn bwriadu cerdded/beicio yn y dyfodol.
- Darparu mwy o lwybrau sydd â chyfleusterau i bobl anabl.
- Cynnydd yn y defnydd o lwybrau a'r posibilrwydd o gofnodi llwybrau newydd yn arwain at gynnydd mewn gwaith cynnal a chadw.
- Er bod ychydig o gyllideb fewnol flynyddol ar gael i dalu am ddyletswyddau statudol, nid oes sicrwydd o gyllid ar gyfer gwaith neu brojectau disgresiynol.

### 3.3.7 Grwpiau cefnogi a ffactorau dylanwadol

Bydd nifer o grwpiau yn cefnogi CGHT 2020-30 (Seilwaith Gwyrdd, Fforwm Mynediad lleol, Tîm Teithio Llesol). Yn ogystal, yn sail i'r ymdrechion i hyrwyddo pob gweithgaredd awyr agored sy'n gysylltiedig â HTC mae gwefan 'Awyr Agored Caerdydd'. Hefyd mae nifer o ffactorau dylanwadol (CDLl, Uchelgais Prifddinas, amcanion lles) i'w hystyried.

## Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl)

Corff statudol yw'r Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl), a ffurfiwyd fel un o ofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae gan y FfMLl wirfoddolwyr sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl o bob cwr o Gaerdydd, gan gynnwys tirfeddianwyr, defnyddwyr mynediad fel cerddwyr, beicwyr a marchogion a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau eraill fel iechyd a chadwraeth. Gweler 1. 7 am fwy o wybodaeth.

## Grŵp Seilwaith Gwyrdd

Gweithgor rhyng-adrannol yng Nghyngor Caerdydd yw'r Grŵp Seilwaith Gwyrdd (Parciau, Ecoleg, Swyddog Coed, HTC, Trafnidiaeth a Swyddogion Draenio Cynaliadwy) sy'n ceisio gwneud y defnydd gorau o adnoddau ariannol ac osgoi dyblygu ymdrechion trwy gynnig grŵp canolog ar gyfer camau datblygu seilwaith gwyrdd. Mae hyn yn cynnwys gweithredu fel ymgynghorai ar gyfer ceisiadau cynllunio, gweithredu projectau bioamrywiaeth a Chynlluniau Cyflawni CGHT ar draws y ddinas i wella mynediad i fannau gwyrdd a dyfrffyrdd.

Mae'r grŵp wedi creu Cynllun Seilwaith Gwyrdd sy'n nodi dull Cyngor Caerdydd – mannau gwyrdd amlbwrpas cysylltiedig sy'n gwneud y defnydd gorau o dir – wrth brofi'r angen i ddarparu a gwella mannau gwyrdd agored i bawb, gan helpu bywyd gwyllt i ffynnu a chyflwyno amrywiaeth eang o fanteision economaidd, iechyd a chymunedol.

Mae manteision ymagwedd seilwaith gwyrdd yn galluogi tirweddau i ddod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amlgylcheddol a rheoli'r perygl o lifogydd ar yr un pryd, ac wedyn mae'n ystyried sut gellir lluosi'r manteision hyn trwy fod yn gysylltiedig â rhwydwaith ehangach o leoedd. Er enghraifft, caiff y budd iechyd a lles ei gyfrannu i wella ansawdd aer a rheoliadau sŵn, ardaloedd mwy hygyrch ar gyfer ymarfer corff ac amwynderau a fydd yn gwella amodau iechyd a chymdeithasol i'r cyhoedd. Caiff twristiaeth a hamdden eu cynyddu trwy greu cyrchfannau mwy deniadol a chynnig amrywiaeth o gyfleoedd hamdden.

## Teithio llesol

Bydd angen i dasgau yn y CGHT newydd adlewyrchu tirwedd newidiol sir Caerdydd, trwy gynnwys agweddau ar y CDLl 2006-2026 mabwysiedig. Gweler 2.2 am fwy o wybodaeth a map lleoliad. Diben Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yw 'gwneud teithio llesol y dewis mwyaf deniadol ar gyfer y rhan fwyaf o siwrneiau byrrach. Ei diben yw galluogi mwy o bobl i deithio'n llesol, sy'n golygu y gall mwy o bobl fwynhau manteision teithio llesol' (1.1 Canllaw LIC).

Diffiniad 'Teithio Llesol' yng nghanllaw LIC yw 'cerdded a beicio fel opsiwn gwahanol i drafnidiaeth fodur... ar daith i neu o weithle neu sefydliad addysg neu er mwyn defnyddio cyfleusterau iechyd, hamdden neu wasanaethau eraill.' (tudalen 5). Nid yw teithio llesol yn cynnwys marchogaeth, na defnydd hamdden a chyffredinol o lwybrau.

**Diddorol yw nodi bod y defnydd o feics wedi cynyddu gan 10% rhwng 2001 a 2011 a'r defnydd o drenau wedi cynyddu gan 82% dros yr un cyfnod (CDLi, t20).**


Lluniodd y Tîm Trafnidiaeth yng Nghyngor Caerdydd, ochr yn ochr â Sustrans ac Exegesis SDM (dan gontract gyda Llywodraeth Cymru) Fap Rhwydwaith Integredig (MRhI), sy'n nodi gweledigaeth 15 mlynedd Cyngor Caerdydd i wella llwybrau beicio a cherdded ar draws y ddinas Bydd y tîm CGHT a Thrafnidiaeth yn nodi llwybrau sydd ar CGHT a gwelliannau posibl. Gallai mannau gwyrdd gael eu hymgorffori mewn llwybrau Teithio Llesol hefyd gan eu bod yn dod â llawer o fanteision, fel cynyddu lles meddyliol, lleihau llygredd aer ac ati. Hefyd, i ategu nodau ac amcanion Teithio Llesol, mae'r CDLl yn ceisio sicrhau bod pob ardal ddatblygu newydd (boed yn safle maes glas neu'n dir llwyd) yn creu cymunedau cynaliadwy gyda rhwydweithiau cerdded a beicio defnyddiol a chysylltiedig.

Yn Uchelgais Prifddinas, dywedodd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd; 'Rwy'n benderfynol o flaenoriaethu dulliau teithio cynaliadwy drwy fabwysiadu dulliau 'Dinas Ddeallus' mewn perthynas â seilwaith'.

## Awyr Agored Caerdydd

Roedd y fenter i greu brand a gwefan Awyr Agored Caerdydd (AAC) yn gyflawniad sylweddol a ddeilliodd o broses CGHT 2008-18, trwy drafodaethau â thimau perthnasol y Cyngor (gan gynnwys Parciau, Awdurdod yr Harbwr a Theithio Llesol), yr ymgynghorwyd â hwy ar broses a chynnydd y CGHT. Gan fod sawl nod ac amcan cyffredin o fewn y timau a chyfle am brojectau posibl ar y cyd, daeth Awyr Agored Caerdydd yn bwynt canolog i'r timau ar gyfer cyfathrebu â'r cyhoedd am weithgareddau awyr agored yng Nghaerdydd.

## Map 3 – Safleoedd Strategol y CDLl




Dengys Map 2 yr 8 Safle Strategol yn y CDLl, wedi eu hamlinellu mewn coch.





## Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

Bydd angen i dasgau yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd adlewyrchu tirwedd newidiol sir Caerdydd, trwy gynnwys agweddau ar y CDLl mabwysiedig ar gyfer 2006-2026. Gweler Cynllun Datblygu Lleol 2006-2026 Mabwysiedig Caerdydd am fanylion llawn.

Arweiniodd twf Caerdydd a'i phoblogaeth at gynnydd sylweddol yn y galw am dai. Mae'r CDLl yn nodi strategaeth i ddarparu 41,415 o gartrefi newydd. Cynrychiola hyn tua 65 % o'r holl gartrefi newydd a ddarperir ar safleoedd tir llwyd a 35 % ar safleoedd tir glas.

Oherwydd nifer y safleoedd datblygu strategol, mae angen diogelu dyffrynnoedd afonydd, bioamrywiaeth, tirwedd a threftadaeth adeiledig Caerdydd. Ceir amcanion allweddol i greu amgylchedd sy'n fwy hygyrch i bob grŵp yn y gymdeithas, i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau, i ddarparu mannau aml-swyddogaethol (mannau agored a rhandiroedd, parciau, llwybrau hamdden a llwybrau beicio, ayb).

Ceir crynodeb isod o Safleoedd Strategol y CDLl a nifer y llwybrau y disgwylir i'r datblygiadau effeithio arnynt:

| Lleoliad y Safle Strategol | Nifer y Llwybrau HTC ar y Safle |
|---|---|
| A - Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Hyb Trafnidaeth Rhanbarthol | Dim llwybrau cerdded HTC,<br>Llwybr cerdded a beicio Taith Taf,<br>2 lwybr beicio |
| B - Hen Waith Nwy, Ferry Road | Dim |
| C - Gogledd-orllewin Caerdydd | 2 reilffordd segur,<br>1 llwybr beicio eilaidd,<br>6 llwybr cerdded HTC, 2 llwybr ceffyl |
| Ch - I'r Gogledd o Gyffordd 33 yr M4 | 3 llwybr cerdded HTC |
| D - I'r De o Greigiau | Dim |
| Dd - Gogledd-ddwyrain Caerdydd (i'r gorllewin o Bontprennau) | 24 GAMD yn yr arfaeth,<br>11 llwybr cerdded HTC |
| E - I'r Dwyrain o Fford Gyswllt Pontprennau | 7 llwybr cerdded HTC,<br>1 GAMD yn yr arfaeth,<br>Dolenni posib i Daith Rhymni |
| F - I'r De o Barc Busnes Llaneirwg | 1 HTC |

## Gweithio gyda datblygwyr

Er bod y Nodiadau Canllaw Technegol HTC wedi eu mabwysiadu a bod y Canllawiau Cynllunio Strategol Seilwaith Gwyrdd yn disgwyl i gael eu mabwysiadu, mae angen gwaith pellach i sicrhau fod datblygwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd hawliau tramwy sy'n croesi eu safleoedd, a'u bod yn dechrau trafodaethau cynnar gyda swyddogion ac aelodau'r FfMLl i ystyried ffyrdd o wella ac amddiffyn y llwybrau hyn. Mae hyn i'w weld yn y CDLl newydd yn Nod Allweddol 8.

## Datganiadau Ardal CNC

Mae'r rhain yn cael eu datblygu gyda chymorth ALl yn Natganiad Ardal Ganolog De Cymru; mae hyn yn sicrhau bod CGHT yn dod yn rhan bwysig o rwydwaith ecolegol integredig, gan gysylltu safleoedd a ddiogelir â'r dirwedd a'r morlun ehangach, a galluogi bywyd gwyllt i ffynnu ac ymledu tra'n cynnig gwasanaethau ecosystem.

## Iechydd a Lles

Bydd hyn yn rhan bwysig o'r CGHT 2020-30 a bydd yn ymgorffori amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n gofyn i '...fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd awdurdod lleol weithredu ar drywydd lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal...'
Y saith nod llesiant allweddol yw:

- Cymru ffyniannus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

## Cynllun Lles Caerdydd

Gweler hefyd Gynllun Lles Caerdydd sy'n nodi blaenoriaethau gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd, sy'n cynnwys Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Trydydd Sector a'r Gwasanaeth Tân, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf. Diben y BGC yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd drwy atgyfnerthu cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas..

## Datblygiadau Newydd

Mae nifer o ddatblygiadau newydd sy'n parhau ac a fydd yn effeithio ar nifer o lwybrau HTC; mae'r rhain yn cynnwys Safleoedd Strategol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), yn ogystal â datblygiadau llai eraill.

## Cysylltiadau Traws Ffiniau a Chyfleoedd Gwirfoddoli

Fel rhan o grŵp partneriaeth Awyr Agored Caerdydd, mae sawl project yn cael ei roi ar waith ar draws Caerdydd sy'n cael eu cysylltu ag awdurdodau lleol er lles y cyhoedd ac ymwelwyr â'r ardal i fwynhau'r awyr agored a mannau gwyrdd. Mae hyn wedi bod yn digwydd ers sawl blwyddyn a bydd yn parhau'n nodwedd allweddol yn y CGHT 2020-30 newydd.

Ar hyn o bryd mae swyddogion parciau'n gweithio gyda grwpiau gwirfoddoli i helpu i wneud gwelliannau a dechrau projectau; fodd bynnag, er mwyn cynyddu cwmpas rhaglen sydd eisoes yn rhaglen lwyddiannus, mae angen cyllid ychwanegol. Mae gan HTC gyfle i weithio'n fwy cydweithredol gyda Pharciau ac awdurdodau cyfagos wrth roi projectau ar waith.





## 3.4 Casgliad yr Asesiad

Wrth ystyried yr holl fanylion am yr Asesiad Newydd a roddwyd uchod, er mwyn cynllunio ar gyfer CGHT 2020-30 rydym wedi:

1. Gwerthuso CGHT 2008-18 a nodi tasgau y gellid eu cynnwys
2. Gwerthuso cyflwr presennol y rhwydwaith HTC a byddwn yn parhau i'w werthuso
3. Gwerthuso anghenion y dyfodol trwy edrychy ar ymatebion yr arlwg cyhoeddus, canllawiau LlC, a deddfwriaeth a pholisïau newydd.

Mae'r 3 elfen allweddol hon wedi helpu i amlygu cyfleoedd y gellir eu nodi ar gyfer Datganiad Gweithredu a Chynllun Cyflawni CGHT 2020-30.

Yn dilyn gwerthusiad y CGHT 1af 2008-2018, cadarnhaodd yr Asesiad Newydd fod angen i'r Datganiad Gweithredu a'r Cynllun Cyflenwi yn y dyfodol fod yn fwy realistig a hyblyg i flaenoriaethu tasgau yn seiliedig ar gyllidebau ariannol, adnoddau staff a gwirfoddolwyr ac arian grant sydd ar gael. Yn achos CGHT 2020-30, bydd tasgau'n seiliedig ar ddyraniad cyllideb cyfredol ac adnoddau staff. Ceisir grantiau ychwanegol a chyllid arall dros y cyfnod o 10 mlynedd ar gyfer tasgau newydd a dyheadol.

Cadarnhaodd yr arolwg cyhoeddus mai materion hysbys ar y rhwydwaith oedd y rhai pwysicaf, gan gynnwys:

- Llwybrau wedi gordyfu
- Cyfeirbwyntiau aneglur (gan ei gwneud yn anodd dilyn llwybrau)
- Cyflwr arwyneb gwael
- Dim digon o wybodaeth am lwybrau sydd ar gael i'w defnyddio

Hefyd roedd tasgau a oedd yn anghyflawn o'r CGHT 1af, sy'n dal i fod yn berthnasol ac wedi eu nodi drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus, a byddant yn cael eu cynnwys yn CGHT 2020-30 (megis uwchraddio lonydd gwyrdd ar gyfer marchogaeth ceffylau, diogelu a gwella llwybrau o fewn datblygiadau newydd a gwella cysylltiadau ag ysgolion a chymunedau).

## 3.5 Cyhoeddi'r CGHT 2020-30 Drafft

Yn dilyn casgliadau'r Asesiad Newydd, ysgrifennwyd a datblygwyd CGHT 2020-30 Drafft gyda mewnbwn gan yr Is-Grŵp CGHT. Cyhoeddwyd y CGHT 2020-30 Drafft ac fe'i dosbarthwyd i ymgynghoreion (fel yn Atodiad 6) a'i hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwefan y Cyngor ac ati, ynghyd â Hysbysiad Cyhoeddus yn yr Echo a'r Western Mail. Rhedodd yr ymgynghoriad o 22 Gorffennaf i 14 Hydref 2019. Dyluniwyd y CGHT 2020-30 terfynol yn fewnol. Gwnaed rhai diwygiadau ynghyd ag addasiadau perthnasol mewn ymateb i sylwadau penodol i'r ymgynghoriad.





Taith Gylchol Fforest Fawr

# 4. DATGANIAD GWEITHREDU HYN Y GOBEITHIWN EI GYFLAWNI

*“Annog a chefnogi’r cyhoedd i gael mynediad i’r rhwydwaith HTC a mannau gwyrdd ar draws y ddinas.”*



Tacsi Dŵr - Llwybr Afon Taf

## Datganiad Gweithredu 2020-30 – yr hyn y gobeithiwn ei gyflawni

Mae'r Datganiad Gweithredu (DG) yn gynllun amlinellol 10-mlynedd cyffredinol o'r hyn y gallwn obeithio ei gyflawni o fewn rhwydwaith Hawliau Tramwy Caerdydd. Ystyriwyd yr holl wybodaeth o'r Asesiad Newydd (Adran 3), a helpodd ni i nodi **5 Strategaeth Allweddol** ar gyfer CGHT 2020-30. Mae'r strategaethau hyn yn hysbysu'r **12 Nod Allweddol** a'r tasgau ar gyfer gwelliannau a gweithgareddau a fydd yn cael eu hystyried yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Bydd y Nodau Allweddol yn hysbysu'r **Cynllun Cyflenwi** (Rhaglen Waith Flynyddol), a fydd â thasgau penodol a all newid yn ystod y flwyddyn, tra gellir cyflwyno tasgau eraill yn ogystal (yn dibynnu ar argaeledd cyllid ac adnoddau staff).

| Yn Adran 5 o ganllawiau 2016 Llywodraeth Cymru, ceir canllawiau penodol ynghylch yr hyn a ddisgwylir yn y Datganiad Gweithredu (DG): |
|---|
| 5.1 Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol baratoi datganiad o'r camau y bwriadant eu cymryd i reoli hawliau tramwy lleol, ac i sicrhau rhwydwaith gwell o hawliau tramwy lleol. |
| 5.2. Bydd y Datganiad Gweithredu yn nodi ymrwymiadau strategol eang yr awdurdod o ran diwallu'r anghenion a datblygu'r cyfleoedd a nodwyd yn yr asesiad, ond gall hefyd gynnwys materion eraill sy'n berthnasol i reoli hawliau tramwy lleol. |
| 5.3. Argymhellir mai dim ond y camau hynny sy'n ddigon hir dymor a strategol i fod yn annhebygol o ddarfod amdanynt yn ystod tymor 10 mlynedd y CGHT y dylai Datganiadau Gweithredu newydd eu cynnwys. Dylid cynnwys camau tymor byr a thymor canolig a'r rhai sy'n deillio o gynlluniau neu ddeddfwriaeth benodol arall yn y Cynllun Cyflenwi, neu mewn polisïau. |



*Glwyptir Bae Caerdydd gan welsh_poppy*





## 4.1 Strategaethau Allweddol

The table below sets out our **5 Key Strategies** to achieve over the next 10 years, based on outcomes from the New Assessment. A full assessment of each key strategy, SWOT analysis and its links to the New Assessment are shown in Appendix 3..

| | Strategaeth Allweddol | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 1 | **Datblygu system reoli fwy effeithlon ar gyfer gwaith Hawliau Tramwy statudol** | Bydd rheolaeth y rhwydwaith HTC yn cael ei chefnogi'n llawn gan ddatblygiad parhaus a mewnbwn data i System Rheoli Digidol y Cyngor (DMS). Bydd yn darparu allbynnau allweddol ar gyfer rheoli, cynnal ac adrodd ar unrhyw faterion ar rwydwaith HTC a'i restr. Mae hyn yn cynnwys arwyddion, clirio llwybrau, arwynebau ac unrhyw waith sydd ei angen i sicrhau bod llwybrau ar gael yn llawn ac yn addas i'r pwrpas. Mae hefyd yn cynnwys yr angen i ystyried ecosystemau a mynediad i bawb. Y strategaeth hon yw'r strategaeth drosfwaol a bydd yn cysylltu â strategaethau 2-5. |
| 2 | **Cynyddu mynediad i bawb trwy welliannau rhwydwaith** | Mae hyn yn seiliedig ar yr angen i ddarparu'r mynediad lleiaf cyfyngol i Hawliau Tramwy Cyhoeddus a bydd hyn yn sbardun i newid yn sgil unrhyw welliannau i'r rhwydwaith. Er enghraifft, gellid gosod giatiau neu fylchau yn lle camfeydd presennol |
| 3 | **Gwella a hyrwyddo'r rhwydwaith HTC a gweithgareddau awyr agored** | Annog a chefnogi'r cyhoedd i gael mynediad i'r rhwydwaith HTC a mannau gwyrdd ar draws y ddinas, trwy amrywiol ddeunyddiau hyrwyddo gan gynnwys yn electronig, byrddau gwybodaeth ar y safle a thaflenni wedi'u hargraffu. |
| 4 | **Cadw a gwella'r rhwydwaith HTC ac ecosystemau** | Rheoli a diweddaru'n effeithiol y Map Diffiniol a'r Datganiad ac unrhyw newidiadau i'r rhwydwaith megis dargyfeirio, diddymu a chreadigaethau. Dilynnir unrhyw gyfleoedd i wella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, megis ystyried projectau newydd (e.e. llwybrau ceffylau), cysylltiadau strategol (e.e. trawsffiniol), ffyrdd o wella llwybrau presennol (e.e. mynediad i bawb - gweler 2 uchod) ac ystyriaeth o ecosystemau a gwaith tymhorol. Bydd y rhain yn ddibynnol ar gyllid. |
| 5 | **Bod yn ymatebol i Ddeddfwriaeth newydd, cynlluniau a strategaethau lleol diwygiedig a datblygiadau tir sy'n dod i'r amlwg** | Dros y 10 mlynedd nesaf, mae'n debygol y bydd digwyddiadau annisgwyl yn effeithio ar y rhwydwaith HTC. Ymdrinnir â'r rhain drwy'r Cynlluniau Cyflenwi i sicrhau bod y rhwydwaith yn cael ei gynnal a'i reoli'n ymatebol i newidiadau mewn deddfwriaeth, cynlluniau a strategaethau. Telir sylw arbennig i HTC yr effeithir arnynt gan ddatblygiadau tir newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw a'u gwella. |



Cerrig Camu ar Lwybr Llannerch yr Afon

# 5. NODAU ALLWEDDOL

*"Gwella gwybodaeth am y llwybrau, y llefydd i ymweld â nhw, gweithgareddau awyr agored a digwyddiadau."*



Cyfeiriannu yng Ngwaelod y Garth

## 5.1 Ynglŷn â'n Nodau Allweddol

Mae'r Nodau Allweddol yn darparu cynllun manylach o sut y bydd Strategaethau Allweddol yn cael eu cyflawni dros y 10 mlynedd nesaf.

Bydd y Nodau Allweddol hyn yn hysbysu Cynllun Cyflenwi'r tîm HTC (rhaglen waith flynyddol), a fydd â thasgau penodol a all newid yn ystod y flwyddyn yn dibynnu ar argaeledd cyllid ac adnoddau staff.

| | Nodau Allweddol |
|---|---|
| 1 | **Gwell rheolaeth a chynnal parhaus ar y rhwydwaith HTC** |
| 2 | **Cynnal Map Diffiniol cyfredol a phrosesu Gorchmynion Cyfreithiol** |
| 3 | **Gwella ecosystemau Caerdydd ar hyd llwybrau HTC** |
| 4 | **Gosod arwyddion ar draws y rhwydwaith HTC i helpu'r cyhoedd ddod o hyd i'r ffordd** |
| 5 | **Cefnogi Fforwm Mynediad Lleol Caerdydd a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau diddordeb a gwirfoddolwyr** |
| 6 | **Nodi a gwella cysylltiadau strategol a hygyrchedd y rhwydwaith** |
| 7 | **Gwella a chynyddu'r rhwydwaith llwybrau ceffylau** |
| 8 | **Gwarchod a gwella llwybrau o fewn datblygiadau newydd ac ar dir preifat** |
| 9 | **Rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth ar-lein i helpu'r cyhoedd 'Adrodd am Broblem' ar y rhwydwaith llwybrau** |
| 10 | **Cynnal a gwella Llwybr Arfordir Cymru, cydgysylltu â CNC** |
| 11 | **Gwella gwybodaeth am lwybrau, lleoedd i ymweld â nhw, gweithgareddau a digwyddiadau awyr agored** |
| 12 | **Hyrwyddo Codau Ymddygiad i'r cyhoedd barchu'r amgylchedd a defnyddwyr llwybrau eraill** |





## Deall y tablau

| Nod Allweddol: Mae hwn yn disgrifio'r hyn y bwriadwn ei gyflawni o fewn y 10 mlynedd nesaf a pha Strategaethau Allweddol y mae'n ymwneud â hwy yn ogystal â Deddfwriaeth, Polisïau a Chynlluniau Cenedlaethol a Lleol (gweler y rhestrau isod) | | |
|---|---|---|
| **Rhif.** | **Tasg a Disgrifiad** | **Ffynhonnell cyllid** |
| **Cyfeirnod unigryw ar gyfer pob tasg** | **Tasg:** Disgrifiad byr o'r gwaith sydd angen ei wneud i gyflawni'r nod allweddol.<br>**Disgrifiad:** Mae hwn yn rhoi mwy o fanylion am y math o waith a wneir i gefnogi'r dasg i gyflawni'r nod allweddol | Sut bydd pob tasg yn cael cefnogaeth ariannol i gyflawni'r gwaith sydd ei angen.<br>**Refeniw**: Cyllid mewnol Cyngor Caerdydd, a ddyrennir yn flynyddol<br>**Cyllid ychwanegol**: Arian grant neu gronfeydd eraill heb eu nodi eto |

| Strategaethau Allweddol CGHT | Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol a chynlluniau |
|---|---|
| **Pa Strategaeth Allweddol CGHT y mae'r Amcan Allweddol hwn yn ei chyflawni o fewn y 10 mlynedd, fel y disgrifir yn adran 4:**<br>1. Datblygu system reoli fwy effeithlon ar gyfer gwaith Hawliau Tramwy statudol<br>2. Cynyddu mynediad I bawb trwy welliannau rhwydwaith<br>3. Gwella a hyrwyddo'r rhwydwaith HTC a gweithgareddau awyr agored<br>4. Cadw a gwella'r rhwydwaith HTC ac ecosystemau<br>5. Bod yn ymatebol i Ddeddfwriaeth newydd, cynlluniau a strategaethau lleol diwygiedig a datblygiadau tir sy'n dod i'r amlwg | Mae pob Nod Allweddol yn berthnasol i amrywiol ddeddfwriaethau a pholisïau a bydd hyn yn nodi pa rai sy'n berthnasol.<br>A. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – Amlinelliad Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf<br>B. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd Amlinelliad Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf<br>C. Polisi Adnoddau Naturiol i Gymru (NRP)<br>Ch. Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016)<br>D. Strategaeth 'Beth sy'n Bwysig' Caerdydd 2010-2020<br>Dd. Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006-2026<br>E. Uchelgais Prifddinas Caerdydd<br>F. Cynllun Seilwaith Gwyrdd Caerdydd (Drafft 2018)<br>Ff. Map Rhwydwaith Integredig Caerdydd ar gyfer teithio llesol<br>G. Deddf Cydraddoldeb 2010 |

Gellir gweld Hawliau Tramwy Cyhoeddus Caerdydd ar wefan Cyngor Caerdydd ar www.caerdydd.gov.uk

http://ishare.caerdydd.gov.uk/myCardiffWelsh.aspx

# Nodau Allweddol 2020-30 – disgrifiad a chyllid

## Nod Allweddol 1: Gwell rheolaeth a chynnal parhaus ar y rhwydwaith HTC

*Strategaethau CGHT: 1, 2, 3, 4, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E, F, FF, G*

| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 1.1 | **Cynnal a rheoli'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus** | **Refeniw:** Amser staff |
| 1.2 | **Cofnodi asedau'r rhwydwaith HTC ar DMS gan gynnwys dodrefn, cyfeirbwyntiau a chyflwr arwynebau. Cynnal arolygon cyfnodol o'r holl lwybrau HTC. Bydd hyn yn helpu i flaenoriaethu'r gwaith cynnal a chadw llwybrau sydd ei angen fel rhan o rwymedigaeth statudol y Cyngor** | **Refeniw:** Cynnal arolygon cyfnodol, gwneud gwaith cynnal a chadw |
| 1.3 | **Creu meini prawf i gymharu gwybodaeth a gasglwyd o'r arolygon cyflwr i ddatblygu system ar gyfer cynnal a chadw a blaenoriaethu projectau sy'n ofynnol fel rhan o rwymedigaeth statudol y Cyngor.**<br><br>**Cysylltu â gwahanol grwpiau defnyddwyr i nodi llwybrau a fyddai'n fuddiol i'r cyhoedd pe baent yn cael eu gwella i ddod yn fwy hygyrch. Gallai hyn gynnwys mynediad i ddyfrffyrdd.** | **Refeniw:** Amser staff i ddatblygu meini prawf a nodi blaenoriaethau'r project<br><br>**Cyllid ychwanegol:** Gwella arwynebau llwybrau/ mynediad |
| 1.4 | **Parhau i ddatblygu DMS i wella rheolaeth a chynnal a chadw rhwydwaith HTC ymhellach.** | **Refeniw:** Amser staff i wella casglu data a nodweddion yn y DMS |
| 1.5 | **Nodi, arolygu, cofnodi a thrin chwyn ymledol ar lwybrau HTC neu'n agos atynt.**<br><br>Gweithio gydag adrannau eraill y Cyngor, projectau cyllid grant a CNC i daclo chwyn ymledol yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost-effeithiol a sicrhau bod cytundebau chwynladdwyr gyda CNC mewn grym lle bo angen. | **Refeniw:** Cofnodi, cynllunio archwiliadau, trefnu triniaeth |

## Lluniau - enghreifftiau o waith a wnaed, cyn ac ar ôl

Llwybr Certi 52 – Cyn ac ar ôl



Radur 27 – gât yn lle sticil a oedd wedi torri







## Nod Allweddol 2: Cynnal Map Diffiniol cyfredol a phrosesu Gorchmynion Cyfreithiol

*Strategaethau CGHT: 1, 3, 4, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: B, Dd, F*


| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 2.1 | **Diweddaru'r Map Diffiniol (MD) a Datganiadau mewn modd amserol**<br><br>Bydd y MD a'r Datganiad yn cael eu hadolygu'n barhaus, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (adran 53). Bydd y MD yn cael ei ailgyhoeddi yn ôl yr angen a hysbysir yr Arolwg Ordnans (OS) o unrhyw newidiadau. . | **Refeniw:** Amser staff a chostau cyhoeddi i ailgyhoeddi'r Map Diffiniol a'r Datganiad |
| 2.2 | **Rheoli a phrosesu Gorchmynion Cyfreithiol mewn modd amserol.**<br><br>Rheolir y broses Gorchymyn Cyfreithiol gan ddeddfwriaeth a gall gymryd 6-8 mis i'w chadarnhau. Adolygu polisïau mewnol i helpu i leihau amserlenni. | **Refeniw:** Amser staff a chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cyfreithiol<br><br>**Tirfeddianwyr:** Ffioedd Gorchymyn Cyfreithiol i dalu am yr holl gostau |
| 2.3 | **Diweddaru a gwella gwybodaeth ar wefan Cyngor Caerdydd am y Map Diffiniol, y Datganiad a'r Gorchmynion Cyfreithiol cyfredol.**<br><br>Bydd gwybodaeth gyhoeddus am y Map Diffiniol, y Datganiad a'r Gorchmynion Cyfreithiol (Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol - GAMD) ar wefan Cyngor Caerdydd a bydd y mapiShare yn cael ei wella a'i ddiweddaru i helpu hysbysu'r cyhoedd o unrhyw newidiadau i'r rhwydwaith, neu os caiff llwybr ei gau dros dro. | **Refeniw:** Amser staff a chymorth TGCh i ddiweddaru gwefan a map iShare |

## Nod Allweddol 3: Gwella ecosystemau Caerdydd ar hyd llwybrau HTC

*Strategaethau CGHT: 1, 3, 4 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E*


| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 3.1 | **Cynllunio a chynnal gwaith cynnal a chadw llystyfiant ar hyd llwybrau HTC er mwyn lleihau'r effaith ar ecosystemau, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif.**<br><br>Bydd Swyddogion HTC yn cysylltu ag adrannau mewnol i gael cyngor ar ddulliau gwaith priodol ar lwybrau HTC sydd wedi'u lleoli ar neu ger safleoedd ecolegol neu hanesyddol sensitif (e.e. SoDdGA, coetiroedd hynafol, caerau hynafol, ayb.), a chael trwyddedau perthnasol. Cynllunio a chyflawni gwaith mewn partneriaeth â Pharciau ac Adnoddau a darparu amrywiaeth o sgiliau i gyflawni tasgau. Cofnodir y lleoliadau, manylion cyfyngiadau a dulliau gwaith priodol yn DMS. | **Refeniw:** Amser staff ar gyfer dulliau gwaith priodol, trwyddedau a chynnal a chadw statudol |
| 3.2 | **Dyheadol: Gwella safleoedd penodol trwy brojectau cadwraeth a ariennir gan bartneriaeth.**<br><br>Bydd Swyddogion a staff Cynnal a Chadw HTC yn gweithio gyda gwahanol grwpiau i wella safleoedd penodol ar brojectau cadwraeth pan ganfyddir cyllid ychwanegol. | **Cyllid ychwanegol:** Efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol ar brojectau cadwraeth i wneud gwelliannau |

## Map 4 - Teithiau Cerdded Cylchol Mynydd y Garth, Pentyrch, Fforest Fawr a Thongwynlais





## Llwybr Ceffylau Fforest Fawr

Ymgyfarwyddwch â'r llwybr a pheidiwch a marchogaeth oddi arno. Bydd methu â chadw at y llwybr yn golygu niweidio'r trafod rhwng SAFE, BHS a Forest Enterprise ar gyfer mynediad pellach i geffylau yn lleol a ledled Cymru.




### Arwyddbyst Llwybr Fforest Fawr






Cyngor Caerdydd - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2020-30

### Nod Allweddol 4: Gosod arwyddion ar draws y rhwydwaith HTC i helpu'r cyhoedd ddod o hyd i'r ffordd.

*Strategaethau CGHT: 1, 2, 3, 4, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E, F, FF*

| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 4.1 | **Gwella cyfeirbwyntiau a mapio'r rhwydwaith i helpu'r cyhoedd i lywio llwybrau.**<br>Nodi llwybrau lle mae amwysedd, ac yn seiliedig ar feini prawf blaenoriaeth, marcio arwyddbyst yn glir i helpu'r cyhoedd ddod o hyd i'r ffordd. | **Refeniw:** Amser staff i nodi llwybrau a gosod arwyddion |
| 4.2 | **Dyheadol: Creu a gosod tagiau lleoliad ar ddodrefn i helpu'r cyhoedd ddod o hyd i'r ffordd ac adrodd am broblem ar hyd eu taith.**<br>Cysylltu ag ALlau eraill a sefydliadau'r Llwybr Cenedlaethol i gael syniadau sydd wedi gweithio'n dda ar gyfer dod o hyd i leoliad ar ddodrefn (e.e. enw a rhif y llwybr, cyfeirnodau grid, ayb). Gallai codau QR gael eu hystyried, gan gysylltu â phwyntiau o ddiddordeb gerllaw (hanesyddol, bioamrywiaeth ac ati), | **Cyllid ychwanegol:** Dylunio, argraffu a gosod tagiau lleoliad ar ddodrefn |
| 4.3 | **Dyheadol: Creu teithiau cylchol newydd, llwybrau pellter hir neu fathau eraill o lwybrau ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr llwybrau.**<br>Bydd Swyddogion HTC yn gweithio gyda phartneriaid ar lwybrau newydd sy'n cael eu hystyried er mwyn gwella hygyrchedd, creu cysylltiadau â phwyntiau o ddiddordeb ac amwynderau, ayb. Os oes cyllid ar gael, gosod byrddau gwybodaeth ar y safle, cynhyrchu taflenni hyrwyddo, ayb. | **Cyllid ychwanegol:** Amser staff i greu llwybr.<br>Creu a gosod byrddau gwybodaeth, argraffu taflenni, ayb. |



## Nod Allweddol 5: Cefnogi Fforwm Mynediad Lleol Caerdydd a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau diddordeb a gwirfoddolwyr

*Strategaethau CGHT: 1, 2, 3, 4, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E, F, FF, G*

| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 5.1 | **Hyrwyddo a chefnogi Fforwm Mynediad Lleol Caerdydd (FfMLI).**<br>Cefnogi'r FfMLI a recriwtio aelodau bob 3 blynedd. Sicrhau bod aelodau'n cynrychioli amrywiaeth o ddiddordebau (e.e. marchogion, beicwyr, cerddwyr, mynediad dŵr, tirfeddianwyr, ayb). Parhau i gynnal cyfarfodydd cyfnodol, ymgynghori ar ddatblygiadau newydd, polisïau a chynorthwyo gyda materion a gwelliannau llwybrau sy'n effeithio ar y rhwydwaith HTC. Fel rhan o Ddeddf CGHT 2000, bydd y FfMLI yn sicrhau bod projectau'n cysylltu â Chynlluniau Allweddol a Nodau Allweddol Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2020-30. | **Refeniw**: Amser staff fel Ysgrifennydd y FfMLI, costau llogi ystafelloedd cyfarfod a chostau teithio. |
| 5.2 | **Recriwtio gwirfoddolwyr i helpu i gynnal a gwella llwybrau.** HTC i ymuno â grwpiau gwirfoddoli i helpu i wella llwybrau, gwella a chynnal bioamrywiaeth. | **Refeniw:** Yn dibynnu ar y math o waith sy'n cael ei wneud |
| 5.3 | **Dyheadol: Gweithio mewn partneriaeth ar brojectau i wella'r rhwydwaith**.<br>Cysylltu â gwahanol grwpiau (gan gynnwys grwpiau symudedd a synhwyraidd) i ymdrin â materion llwybrau penodol (gweler Nod Allweddol 1) a chynorthwyo gyda chyfleoedd ariannu ychwanegol i gynyddu hyrwyddiad y rhwydwaith.<br>Gweithredu gwelliannau llwybrau, lle bo modd, gyda chymorth gwirfoddolwyr a grwpiau partneriaeth. | **Cyllid ychwanegol:** Gweithredu'r projectau |

## Nod Allweddol 6: Nodi a gwella cysylltiadau strategol a hygyrchedd y rhwydwaith

*Strategaethau CGHT: 1, 2, 3, 4, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E, F, FF, G*

| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 6.1 | **Gwella hygyrchedd llwybrau ar sail meini prawf blaenoriaeth.**<br>Nodi llwybrau sydd angen gwaith cynnal ychwanegol neu well mynediad i bobl â nam symudedd a synhwyraidd trwy ddefnyddio meini prawf gwybodaeth o arolygon llwybrau HTC (gweler Nod Allweddol 1), gan gysylltu â grwpiau defnyddwyr perthnasol a defnyddio cyfeiriadau fel y canllaw Mynediad Lleiaf Cyfyngus a ddatblygwyd gyda'r Ymddiriedolaeth Synhwyraidd. | **Refeniw**: Amser staff i gysylltu â grwpiau defnyddwyr i flaenoriaethu llwybrau ar gyfer gwelliannau |
| 6.2 | **Dyheadol: Gweithredu gwelliannau llwybrau i gynyddu hygyrchedd.**<br>Bydd gwelliannau yn amodol ar adnoddau ariannol a chaniatâd tirfeddianwyr.<br>Cysylltu â phartneriaid ac adrannau'r Cyngor i helpu i ddod o hyd i gyllid grant.Lle bo modd, gweithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr i helpu gyda gosodiadau a gwella llwybrau. | **Cyllid ychwanegol:** Gwella dodrefn a llwybrau<br>**Gwirfoddolwyr**: Cynorthwyo gyda gosodiadau |
| 6.3 | **Dyheadol: Creu llwybrau strategol newydd a gwella cysylltiadau trawsffiniol.**<br>Gellir nodi llwybrau fel cysylltiadau coll ar gyfer parhad y rhwydwaith a/neu lwybrau trawsffiniol. Cysylltu â thirfeddianwyr, cynghorau cymuned, ALlau cyfagos a grwpiau defnyddwyr i ystyried pa welliannau sydd eu hangen a dod o hyd i gyllid i'w gweithredu.<br>Lle bo'n addas, defnyddio cyfrifwyr pobl i helpu i fonitro'r defnydd o lwybrau mewn lleoliadau penodol, i helpu i flaenoriaethu gwelliannau posibl. | **Cyllid ychwanegol:** Gwella dodrefn a llwybrau<br>**Gwirfoddolwyr**: Cynorthwyo gyda gosodiadau |

## Nod Allweddol 7: Gwella a chynyddu'r rhwydwaith llwybrau ceffylau

*Strategaethau CGHT: 1, 3, 4, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E, F, FF*

| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 7.1 | **Nodi a chofnodi lle mae marchogion mewn perygl.**<br>Nodi ffyrdd lle mae marchogion mewn perygl oherwydd lonydd cul/ prysur a lle bu damweiniau, neu ddigwyddiadau a oedd bron yn ddamweiniau, rhwng beicwyr a gyrwyr/ beicwyr.<br>Cofnodi ar fap DMS (gweler Nod Allweddol 1). Cysylltu â Swyddogion Priffyrdd i ystyried gosod arwyddion ffyrdd i hysbysu gyrwyr am farchogion/ llwybrau ceffylau gerllaw. | **Refeniw**: Amser staff i nodi a chofnodi<br>**Cyllid ychwanegol:** Priffyrdd i osod arwyddion ffyrdd neu wneud gwelliannau seilwaith |
| 7.2 | **Dyheadol: Uwchraddio wyneb lonydd gwyrdd presennol a llwybrau posibl eraill i greu llwybrau ceffylau newydd, cynyddu'r rhwydwaith llwybrau ceffylau a gwella cysylltiadau trawsffiniol.**<br>Cysylltu â gwahanol grwpiau a sefydliadau marchogaeth (e.e. Cymdeithas Ceffylau Prydain - BHS) i nodi llwybrau y gellid eu huwchraddio i ddatblygu rhwydwaith llwybrau ceffylau oddi ar y ffordd, cysylltiadau trawsffiniol ALlau, a llwybrau pellter hir.<br>Lle mae risgiau hysbys i farchogion sy'n defnyddio ffyrdd prysur, neu lle bydd datblygiadau newydd yn effeithio ar lonydd tawel, cysylltu â Swyddogion y Cyngor i ystyried adlinio llwybrau neu welliannau i lwybrau er mwyn diogelu'r cysylltiadau allweddol hyn. | **Refeniw**: Arolygon a chysylltu â grwpiau defnyddwyr<br>**Cyllid ychwanegol:** Gwella llwybrau<br>**Developments**: Gorchmynion Cyfreithiol a gwelliannau i lwybrau |



Cyngor Caerdydd - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2020-30

## Nod Allweddol 8: Gwarchod a gwella llwybrau o fewn datblygiadau newydd ac ar dir preifat

*Strategaethau CGHT: 1, 2, 3, 4, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E, F, FF, G*

| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 8.1 | **Cadw'r llwybrau HTC presennol mewn mannau gwyrdd a gwella cysylltiadau strategol â mwynderau lleol.**<br>Codi ymwybyddiaeth yn yr awdurdod a gyda datblygwyr yn ystod y camau cyn cynllunio, gan nodi sut dylai safleoedd ddatblygu i hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer hamdden a mynediad, er mwyn cyfyngu ar golli mynediad. Nodi a gwella llwybrau o fewn datblygiadau i greu cysylltiadau da ag amwynderau a mannau gwyrdd. | **Refeniw:** Cysylltu â grwpiau defnyddwyr a Swyddogion Cynllunio |
| 8.2 | **Cysylltu â thirfeddianwyr/datblygwyr i sicrhau bod llwybrau'n cael eu cadw a'u bod yn hygyrch yn ystod cyfnodau datblygu.** | **Refeniw**: Arolygon llwybrau, arolygiadau a gorfodaeth |
| 8.3 | **Gwella gwybodaeth ar wefan HTC Cyngor Caerdydd ynglŷn â chyfrifoldebau cyfreithiol tirfeddianwyr a datblygwyr.**<br>Bydd gwybodaeth yn parhau i gael ei gwella a'i diweddaru i esbonio beth yw eu cyfrifoldeb o ran cynnal llwybrau yn ystod y broses Gorchymyn Cyfreithiol. | **Refeniw:** Amser staff a chymorth TGCh i ddiweddaru'r wefan a map iShare |

## Nod Allweddol 9: Rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth ar-lein i helpu'r cyhoedd 'Adrodd am Broblem' ar y rhwydwaith llwybrau

*Strategaethau CGHT: 1, 2, 3, 4, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E, F, FF, G*

| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 9.1 | **Dyheadol: Ychwanegu'r rhwydwaith HTC i'r mecanwaith 'Adrodd am Broblem' ar wefan Cyngor Caerdydd a/neu ap y Cyngor i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd nodi lleoliadau penodol a lanlwytho lluniau.**<br>TBydd gwefan 'Adrodd am Broblem' ac opsiynau apiau'r Cyngor yn galluogi Swyddogion HTC a staff Cynnal a Chadw i nodi lleoliadau, trefnu archwiliadau a datrys materion yn fwy effeithlon. . | **Cyllid ychwanegol:** Amser staff a chymorth TGCh i ddiweddaru gwefan ac ap |
| 9.2 | **Dyheadol: Rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth ar-lein i helpu'r cyhoedd nodi lleoliadau chwyn ymledol a sut i adrodd i'r Cyngor er mwyn gweithredu arolygiad.** | **Cyllid ychwanegol:** Creu system adrodd ar-lein ac ar gyfer gwybodaeth gyhoeddusrwydd |



Cyngor Caerdydd - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2020-30

## Nod Allweddol 10: Cynnal a gwella Llwybr Arfordir Cymru, cydgysylltu â CNC

*Strategaethau CGHT: 1, 2, 3, 4, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E, F, FF, G*

| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 10.1 | **Cynnal a gwella Llwybr Arfordir Cymru ar hyd yr arfordir.**<br>Gweithio gyda gwahanol grwpiau i ystyried opsiynau i adlinio'r llwybr ar hyd yr arfordir, gan ddarparu llwybr deniadol a diddorol, cefnogi busnesau lleol a chysylltiadau â chymunedau, mannau gwyrdd a llwybrau eraill a hyrwyddir (e.e. Llwybr Trelái). | **Refeniw**: Amser staff i gysylltu â gwahanol grwpiau (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru). |
| 10.2 | **Dyheadol: Dod o hyd i gyllid grant i weithredu adlinio llwybrau ar hyd yr arfordir.**<br>Cysylltu â phartneriaid i ddod o hyd i gyllid grant i wella cynefinoedd a bioamrywiaeth, ynghyd â nodweddion treftadaeth, ar hyd y llwybr a gweithredu projectau i wella profiad defnyddwyr. Gweithio gyda phartneriaid i wella llwybrau HTC a ddefnyddir i gael mynediad i ddyfrffyrdd. | **Cyllid ychwanegol:** Efallai y gall ceisiadau am arian grant Llwybr Arfordir Cymru gynorthwyo gyda rhai projectau. |
| 10.3 | **Sicrhau fod Llwybr Arfordir Cymru (LlAC) ar agor bob amser er mwyn i'r cyhoedd ei ddefnyddio a'i fod wedi ei gyfeirbwyntio'n dda.**<br>Sicrhau bod unrhyw adliniadau, dargyfeiriadau dros dro a diweddariadau yn cael eu hychwanegu at wefan Llwybr Arfordir Cymru trwy Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), sy'n rheoli gwefan LlAC. | **Refeniw**: Amser staff i archwilio a chynnal y llwybr, cyfeirbwyntio a diweddaru gwybodaeth ar-lein. |

## Nod Allweddol 11: Gwella gwybodaeth am lwybrau, lleoedd i ymweld â nhw, gweithgareddau a digwyddiadau awyr agored

*Strategaethau CGHT: 3, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E, F, FF, G*

| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 11.1 | **Gwella gwybodaeth ar-lein am hygyrchedd, cyflwr llwybrau ac amwynderau i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd benderfynu pa lwybrau sy'n addas ar eu cyfer.** | **Refeniw**: Amser staff a chefnogaeth TGCh i ddiweddaru'r wefan |
| 11.2 | **Hyrwyddo llwybrau, gwybodaeth am fioamrywiaeth, nodweddion treftadaeth, mynediad i dir a mynediad i ddyfrffyrdd, ynghyd â gweithgareddau awyr agored sydd ar y gweill i annog mwy o bobl i gymryd rhan neu i gynyddu cyfleoedd gwirfoddoli.**<br>Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys gwybodaeth i hyrwyddo lleoedd i ymweld â nhw ar gyfer gweithgareddau teuluol, llwybrau sy'n addas i gŵn ac amwynderau ac ati. | **Refeniw**: Amser staff a chefnogaeth TGCh i ddiweddaru'r wefan |
| 11.3 | **Dyheadol: Ystyried technoleg newydd a ffyrdd o hyrwyddo'r rhwydwaith i annog mwy o bobl i ddefnyddio'r llwybrau.** | **Cyllid ychwanegol:** Cael technoleg newydd |

**Nod Allweddol 12: Hyrwyddo Codau Ymddygiad i'r cyhoedd barchu'r amgylchedd a defnyddwyr llwybrau eraill**

*Strategaethau CGHT: 2, 3, 4, 5 - Deddfwriaeth, Polisïau Cenedlaethol a Lleol: A, B, C, Ch, D, E, F, FF, G*

| Rhif | Tasg a Disgrifiad | Ffynhonnell cyllid |
|---|---|---|
| 12.1 | **Hyrwyddo Codau Ymddygiad ar-lein ac arwyddion ar y safle lle bo'n briodol i annog y cyhoedd i barchu'r amgylchedd.**<br>Gweithio mewn partneriaeth gyda phrosiectau lleol a mentrau cenedlaethol (e.e. Codau Cefn Gwlad CNC) i hyrwyddo parch at yr amgylchedd (e.e. sbwriel, baw cŵn, ayb). | **Refeniw**: Amser staff a chefnogaeth TGCh<br>**Cyllid ychwanegol:** ar gyfer hyrwyddo ac arwyddion |
| 12.2 | **Hyrwyddo gwahanol ymgyrchoedd i helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb ar lwybrau a rennir.**<br>Diweddaru gwybodaeth ar-lein ac ar y safle ynghylch defnydd cyfrifol o lwybrau HTC a llwybrau ceffylau i annog parch at bob defnyddiwr llwybr. Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Trafnidiaeth i hyrwyddo parch i ddefnyddwyr eraill y llwybr ar lwybrau Teithio Llesol. | **Refeniw**: Amser staff a chefnogaeth TGCh<br>**Cyllid ychwanegol:** ar gyfer hyrwyddo ac arwyddion |

## 5.2 Rheoli newid yn y dyfodol mewn Polisïau a Deddfwriaeth Allweddol

Mae'n rhesymol disgwyl newidiadau i bolisïau allweddol a allai effeithio'n uniongyrchol ar HTC yn ystod oes y CGHT hwn. Mae canllawiau CGHT Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Datganiad Gweithredu ystyried prosesau Cyngor a fydd yn rheoli'r sefyllfa hon. Bydd yr union broses a ddilynnir a lefel yr ymgynghori yn dibynnu ar natur a maint y newid deddfwriaethol. Fodd bynnag, amlinella'r pwyntiau isod y prif brosesau a fyddai'n cael eu dilyn.

### Newidiadau i bolisïau a deddfwriaeth leol neu genedlaethol:

1. Ymgynghorir â'r Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) a gellir rhoi ymatebion fel Fforwm, ac fel aelodau unigol. Yn dibynnu ar y polisi, gellir ymgynghori â'r cyhoedd hefyd.
2. Bydd tîm HTC yn cysylltu â chydweithwyr o'r Grŵp Seilwaith Gwyrdd ac uwch reolwyr ac yn ymateb yn unol â hynny.
3. Bydd tîm HTC ac uwch reolwyr yn ystyried sut y bydd y polisïau a'r ddeddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig yn effeithio ar reolaeth y rhwydwaith HTC o ddydd i ddydd ac yn rhoi mesurau priodol ar waith.




# 6. CYNLLUNIAU CYFLENWI

*"Bydd y tîm HTC yn parhau i weithio gydag Adrannau a sefydliadau eraill y Cyngor gyda phrojectau cysylltu (e.e. Cynllun Seilwaith Gwyrdd)."*



Parc Bute yn yr Hydref

## 6.1 Canllawiau Cynllun Cyflenwi Llywodraeth Cymru




Mae'r Cynllun Cyflenwi yn nodi projectau tymor byr, canolig a hir a thasgau gwaith sy'n dangos sut y byddwn yn cymhwyso'r Strategaethau Allweddol a'r Nodau Allweddol dros gyfnod penodol o amser. Atega'r cynlluniau hyn y Datganiad Gweithredu a'r Nodau Allweddol er mwyn caniatáu i'r CGHT newydd fod yn fwy ymatebol i amgylchiadau sy'n newid (cyllidebau, staff, cyllid, ayb), heb golli golwg ar ymrwymiadau'r Cyngor.


Bydd aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, y gwaith cynllunio a chefnogi a'r trosolwg o'r Cynlluniau Cyflawni yn rheolaidd.

Bydd y tîm HTC yn parhau i weithio gydag Adrannau a sefydliadau eraill y Cyngor gyda phrojectau cysylltu (e.e. Cynllun Seilwaith Gwyrdd), a allai gynnwys dod o hyd i gyllid. Efallai hefyd y bydd projectau rhanbarthol gydag Awdurdodau Lleol eraill (e.e. Llwybr Pererindod Penrhys).

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gynlluniau Cyflawni fod mewn 3 rhan:

1. Gwerthusiad o gynnydd yn cyflawni'r CGHT a chynlluniau gweithredu blaenorol.
2. Adolygiad o Bolisïau ar gyfer rheoli HTC lleol.
3. Cynlluniau gwaith CAMPUS, a fydd yn cynnwys;
   a) Disgrifiad penodol o'r allbwn
   b) Sut y caiff cynnydd ei fesur, ei fonitro a'i adrodd
   c) Yr adnoddau sydd eu hangen ac argaeledd (gall hyn gynnwys staff)
   d) Pwy fydd yn gwneud y gwaith a'r partneriaid allweddol
   e) Yr amcanion Datganiad Gweithredu sy'n cael eu cyflawni
   f) Amserlen o gamau gweithredu a phrojectau

## 6.2 Adolygu Cynlluniau Cyflenwi – y Rhaglen Flynyddol




Bydd y Cynlluniau Cyflenwi yn rheoli gwaith HTC yn flynyddol, sy'n cynnwys monitro a gwerthuso projectau. Bydd y Cynllun Cyflenwi yn seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd mewn rhai neu'r cyfan o'r 5 Strategaeth Allweddol a'r 12 Nod Allweddol.





### 6.2.1 Cynllun cyflenwi a gwneud penderfyniadau 5-cam HTC

### CAM 1 – Datblygu Cynllun Cyflenwi

Dyluniwyd y System Rheoli Digidol (DMS) i gofnodi gwybodaeth am bob llwybr a'i gyflwr. Defnyddir y wybodaeth hon i nodi gwelliannau posibl i'r rhwydwaith a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar amrywiol ffactorau, fel:

- Arolygon cyflwr
- Cost (Cyllideb y Cyngor ac adnoddau staff)
- Argaeledd grantiau/ffynonellau cyllid eraill ar gyfer projectau penodol
- Cysylltiadau strategol
- Hygyrchedd
- Nifer y ceisiadau cyhoeddus am welliannau
- Projectau partneriaeth a chyllid grant
- Defnydd
- Safleoedd ecolegol a hanesyddol dynodedig

Bydd cyflenwi'r project bob amser yn ystyried gofynion a phrosesau eraill, fel:

- Sicrhau trwyddedau'n ymwneud â rhywogaethau gwarchodedig (e.e. ystlumod, pathewod) neu ardaloedd gwarchodedig ac ardaloedd hanesyddol (e.e.SoDdGA, Cadw)
- Gwaith tymhorol (e.e. adar yn nythu, triniaeth chwyn ymledol)
- Cyfnodau datblygu gwaith

Bydd datblygiad y project yn dechrau yn yr hydref ac yn datblygu dros gyfnod y gaeaf yn barod ar gyfer proses gymeradwyo cyllideb y Cyngor yn y gwanwyn. Ymgynghorir â'r Fforwm Mynediad Lleol ar gynnwys y Cynllun Cyflenwi. Yn seiliedig ar yr ymgynghoriad a'r adnoddau cyfredol sydd ar gael (e.e. staff, cyllid, grantiau, cefnogaeth gymunedol, ayb.), bydd y tîm HTC ac Uwch Reolwyr yn cytuno ar y Cynllun Cyflenwi arfaethedig.

### CAM 2 - Cadarnhau'r Gyllideb a Chytuno ar y Rhaglen

Gosodir y gyllideb yn y gwanwyn a bydd yn cadarnhau'r rhaglen derfynol. Bydd y Cynllun Cyflenwi ar gael i'w weld ar wefan HTC a chaiff ei ddiweddaru pan fydd newidiadau i'r rhaglen.

### CAM 3 - Rheoli'r Cynllun Cyflenwi

Cyflenwir projectau a gwaith cynnal a chadw trwy gydol y flwyddyn yn unol â'r rhaglen arfaethedig.


### CAM 4 - Adolygiad Interim

Adolygir projectau ym mis Awst i fonitro gwariant a chynnydd. Gwneir newidiadau yn ôl yr angen er mwyn bod yn ymatebol i ffactorau na ellid eu rhagweld a allai ddod yn amlwg. Er enghraifft, cyllid annisgwyl neu gymorth partneriaeth yn dod ar gael.

## CAM 5 - Adolygu a Gwerthuso Terfynol

Caiff pob project ei werthuso a chaiff canlyniadau eu cofnodi gan ddefnyddio egwyddorion 'CAMPUS' (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol). Caiff llwyddiant ei fesur yn erbyn y Strategaethau Allweddol a'r Nodau Allweddol yn y Datganiad Gweithredu. Bydd hyn yn caniatáu i gynnydd a llwyddiant y CGHT gael ei fonitro a'i adrodd yn y tymor hwy.

Bydd cyflenwi projectau yn dilyn cylch datblygu, cyflenwi ac adolygu blynyddol, fel y dangosir ar y diagram isod:








## Atodiad 1 – Dogfennau cefnogol a chyfeiriadau

Mae'r rhestr isod yn darparu gwybodaeth bellach y cyfeiriwyd ati yn y ddogfen hon neu a ddefnyddiwyd fel ffynhonnell. Er mwyn lleihau maint y ddogfen hon, mae'r wybodaeth ar gael ar-lein.

| Dolenni gwe i Bolisïau a Strategaethau Lleol / Ardal: | Dolenni cyfeiriad gwe: |
|---|---|
| **CGHT 2008-18:**<br>Adolygiad o'r CGHT 2008-18 (Cam 3)<br>Asesiad Newydd (Cam 4)<br>Canlyniadau Arolwg CGHT | www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Hawliau-tramwy-cyhoeddus/ROWIP/Pages/default.aspx |
| Cynllun Seilwaith Gwyrdd (Drafft) | |
| Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2006 – 2026 (Mabwysiedig) | https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Pages/default.aspx |
| Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol DDdC (2010) | www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/transport-policies-plans/local-transport-plan/Pages/default.asp |
| SEW Regional Transport Plan (2010) | |
| **Strategaethau Cyngor Caerdydd:**<br>Uchelgais Prifddinas<br>Cynllun Corfforaethol<br>Cynllun Gwella Caerdydd<br>Cynllun Llesiant Caerdydd 2018-2023<br>Caerdydd yn 2018<br>Adroddiad Dinas Fyw 2018<br>Bargen Ddinesig<br>Strategaeth Parciau a Mannau Gwyrdd | www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Pages/default.aspx |
| Rhwydwaith Beicio Caerdydd (Enfys) | www.keepingcardiffmoving.co.uk |
| Map Rhwydwaith Integredig | www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/transport-policies-plans/integrated-network-map/Pages/default.aspx |
| Cynllun Llesiant Caerdydd 2018-23 | www.cardiffpartnership.co.uk/cynllun-llesiant/?lang=cy |
| Strategaeth 'Beth sy'n Bwysig' Caerdydd 2010-2020 | cardiffpartnership.co.uk/beth-syn-bwysig-2010-2020/ein-blaenoriaethau-lach/?lang=cy |
| Cynllun iechyd cyhoeddus lleol Caerdydd a'r Fro 2018-21 | http://www.billcaerdyddarfro.cymru.nhs.uk/ |
| Datganiad Ardal CNC – Ardal Canolbarth De Cymru (dan Ddeddf Amgylchedd 2016) | www.naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-central-area-statement/?lang=cy |

| Dolenni gwe i Ddeddfau / Deddfwriaeth Berthnasol: | Cyfeiriadau gwe: |
|---|---|
| Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 Adrannau 60 a 61 | www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/contents - Ewch i adrannau 60 a 61 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 | www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/introduction/enacted |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents |
| Deddf Llywodraeth Leol 1999 | www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1999/27/section/3 |
| Historic Environment (Wales) Act 2016 | www.legislation.gov.uk/anaw/2-16/4/contents |
| Active Travel (Wales) Act 2013 | www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/12/part/4/chapter/2/crossheading/public-spaces-protection-orders/enacted |

| Dolenni gwe am ragor o wybodaeth: | Cyfeiriadau gwe: |
|---|---|
| CGHT | www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Hawliau-tramwy-cyhoeddus/ROWIP/Pages/default.aspx |
| HTC | www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Hawliau-tramwy-cyhoeddus/Beth-yw-Hawliau-Tramwy-Cyhoeddus/Pages/default.asp |
| Awyr Agored Caerdydd | www.outdoorcardiff.com/cy/ |
| Cyfoeth Naturiol Cymru – gwybodaeth gyffredinol am CGHT | www.naturalresources.wales/days-out/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/grants-and-projects/rights-of-way-improvement-plans-and-funding/?lang=cy |
| Canllawiau Llywodraeth Cymru | www.llyw.cymru/cynllun-gwella-hawliau-tramwy-canllawiau-i-awdurdodau-lleol?_ga=2.229432796.1714879767.1560951876-1289116305.1554197664 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | www.naturalresourceswales.gov.uk/?lang=cy |
| CNC: Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru – ffeithiau allweddol ar gyfer polisi ac ymarfer – Adroddiad Cryno | www.naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/national-survey-for-wales/?lang=cy |
| Cadw – Hisotric environment service | www.cadw.gov.wales |
| Glamorgan-Gwent Archaeological Trust Ltd | www.gaat.org.uk |
| Wildlife Trust Wales | www.wtwales.org |
| RSPCA Wales | www.rspca.org.uk/whatwedo/whoweare/wales |

| Dolenni gwe i Awdurdodau Lleol Cyfagos (HTC): | Cyfeiriadau gwe: |
|---|---|
| Cyngor Rhondda Cynon Taf | www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/Resident.aspx |
| Cyngor Bro Morgannwg | www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx |
| Cyngor Caerffili | www.caerffili.gov.uk/main.aspx?lang=cy-GB |
| Cyngor Casnewydd | www.newport.gov.uk/cy/Hafan.aspx |





## Atodiad 2 - Cysylltiadau â Thrywyddau a Llwybrau Cylchol

| Dolenni gwe: | Cyfeiriadau gwe | Manylion y Llwybr Cerdded |
|---|---|---|
| Llwybr Arfordir Cymru | www.llwybrarfordircymru.gov.uk | Llwybr pellter hir: 1,400km / 870 milltir o lwybrau yn dilyn arfordir Cymru o Gas-gwent i'r ffin â Lloegr ger Caer. |
| Taith Cambria | www.cambrianway.org.uk | Llwybr pellter hir: 479 km / 298 milltir o Gaerdydd i Gonwy yng ngogledd Cymru, gan groesi mynyddoedd yn cynnwys Pen y Fan, Cader Idris a'r Wyddfa. Llwybr hardd ond heriol gydag esgyniadau o tua 22,500 mt / 74,000 tr. |
| Ffordd Pererindod Pen-rhys | www.penrhyspilgrimageway.wales | Llwybr Pererindod; 33 km / 21 milltir o Eglwys Gadeiriol Llandaf i Gysegrfa ein Harglwyddes o Ben-rhys yn y Rhondda. |
| Taith Taf - Cyswllt Sustrans<br><br>Fy Nhaith Taf | www.sustrans.org.uk/find-a-route-on-the-national-cycle-network/taff-trail-cardiff-to-brecon/ | Llwybr pellter hir; llwybr cerdded a beicio 88.5 km / 55 milltir o Fae Caerdydd i Aberhonddu sy'n dilyn Llwybr Beicio Cenedlaethol 8. |
| Llwybr Elái | www.outdoorcardiff.com/cy/cerdded/llwybr-elai/ | Llwybr 11 km / 7 milltir o Fae Caerdydd (Pont-y-Werin) i Amgueddfa Sain Ffagan. |
| Llwybr Rhymni | www.outdoorcardiff.com/walks/rhymney-trail | O'r arfordir i'r de o Wentloog Avenue i bentref Llanedern, gyda chysylltiadau i lwybrau cylchol. |
| Llwybrau Marchogaeth Ceffylau yng Nghaerdydd | www.outdoorcardiff.com/cy/llwybrau/marchogaeth | Llwybrau caniataol yn cynnwys; Fforest Fawr a Chanol, Fferm y Fforest, Coeden Cnau Ffrengig, Cribyn Caerffili a llwybr cylchol Rhymni. |
| Tir Mynediad Agored CNC | https://naturalresources.wales/days-out/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/managing-access/open-access-land/?lang=cy | Mae tir mynediad agored, dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, yn cynnwys cefn gwlad agored (mynydd, gwaun, cors ac iseldir) a 'thir comin cofrestredig' sy'n cynnwys tir sy'n cael ei gofnodi ar y cofrestrau swyddogol sy'n cael eu dal gan yr awdurdodau cofrestru comins. |

# Atodiad 3 – Ystyriaethau'r Adolygiad o'r CGHT Cyntaf

Wrth adolygu'r **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)** cyntaf, roedd ffactorau penodol yn effeithio ar a oedd tasgau penodol wedi'u cwblhau'n llwyddiannus:

1. **Dim 'Templed' CGHT i'w ddefnyddio:** Hwn oedd y tro cyntaf i bob Awdurdod Lleol (ALl) gael y dasg o greu CGHT (dyletswydd a rhan o Ddeddf CROW 2000, adran 60); tra bod Canllawiau Statudol gan Lywodraeth Cymru (LlC) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC, Cyfoeth Naturiol Cymru – CNC – bellach) nid oedd 'templed' ar ei chyfer. Cyhoeddwyd 23 CGHT yng Nghymru ac yn dilyn hyn daeth Adolygiad CGHT Cymru (Mawrth 2009) i'r casgliad fod 'pob CGHT yn wahanol' ac y gallai 'dogfen dempled CGHT fod wedi bod yn ddefnyddiol i lunwyr CGHT'.
2. **Nifer uchel o dasgau:** Roedd 16 o nodau a blaenoriaethau allweddol; oddi fewn iddynt roedd 63 o gamau gweithredu a dargedir gyda 213 o is-dasgau. Yn dilyn llythyr gan LlC yn dweud y cafodd pob CGHT ei ddefnyddio i wneud cais am arian ychwanegol, gyda phwyslais ar feintioli adnoddau, ehangwyd y CGHT (cyf t5 CGHT cyntaf) a arweiniodd at fwy o dasgau.
3. **Materion ariannu:** Dyfarnwyd arian grant CGHT i ALlau gan LlC (rheolir gan CCGC) yn seiliedig ar % cyfanswm hyd yr HTC a % y boblogaeth yng Nghymru; nid oedd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd llawn ond fe'i darparwyd blwyddyn wedi blwyddyn yn ddiwarant. Arweiniodd hyn at beidio â gallu pennu targedwyd cyflawnadwy'n glir. Hefyd, roedd nifer o'r camau gweithredu a'r tasgau yn CGHT cyntaf Caerdydd yn ddyheadau ac yn dibynnu ar arian grant nas cadarnhawyd. Yn ystod cyfnod 10 mlynedd y CGHT, lleihaodd arian grant yn sylweddol bob blwyddyn, a effeithiodd ar nifer o dasgau. At hynny, er taw cyfanswm y costau amcangyfrifiedig a gyhoeddwyd i bob tasg CGHT oedd £1,281,100, arian grant gwirioneddol y CGHT dros y cyfnod 10 mlynedd oedd £319,828 ac roedd grantiau ategol o £274,938. Roedd hefyd gyllid refeniw mewnol blynyddol (£129,702) a gwmpasodd gwaith cynnal a chadw a gwaith llawr a defnyddiwyd rhywfaint o hyn i ategu tasgau CGHT fel arian cyfatebol.
4. **Dim system Rheoli Project:** Nid oedd adnodd rheoli project penodol i helpu i gyhoeddi, monitro ac adrodd cynnydd tasgau ROWIP. Er y bwriedir defnyddio system CAMS i reoli'r rhwydwaith ac adrodd ar gynnydd, yn ymarferol daethai'n rhy gostus i'w defnyddio ac nid oedd yn ymwneud yn benodol â thasgau ROWIP. Tua diwedd y cyfnod 10 mlynedd, mabwysiadwyd y system AMX ac mae wrthi'n cael ei defnyddio a'i diweddaru i helpu i gynnal cynllunio cynnal a chadw'r rhwydwaith hawliau tramwy (HTC). Diweddarwyd y FfMLl ar gynnydd y CGHT ac roedd yn rhan o brojectau penodol ond nid adolygwyd y CGHT yn flynyddol/pob tair blynedd trwy gydol y deng mlynedd.
5. **Newidiadau staff:** O fewn oes y CGHT cyntaf, roedd newidiadau staff a arweiniodd at y mater o drosglwyddo a dilyniant tasgau a chynnydd CGHT, fel ni ellid rhoi sylwadau llawn ar rai tasgau'n yr adolygiad hwn

Er gwaethaf y ffactorau hyn, cyflawnodd y tîm HTC lawer o'r tasgau ac mewn rhai achosion rhagorwyd arnynt – yn enwedig o ran dod o hyd i anghysondeb yn y Map Diffiniol (gweler y Nod Allweddol 1 isod) a'i gofnodi a menter brand a gwefan 'Awyr Agored Caerdydd'. Mae sawl nod a thasg allweddol o'r CGHT cyntaf a gaiff eu cynnwys yn y CGHT newydd. Roedd y fenter i greu brand a gwefan Awyr Agored Caerdydd (AAC) yn gyflawni pwysig a ddeilliodd o'r broses CGHT gyntaf, drwy drafodaethau â thimau perthnasol y Cyngor (gan gynnwys Parciau, Awdurdod yr Harbwr, Teithio Llesol) a ymgynghorwyr ar broses a chynnydd y CGHT. Daethai'n amlwg fod nifer o nodau ac amcanion ar y cyd yn y timau, gyda chyfleoedd i gyflawni projectau ar y cyd posibl, gan arwain at gytundeb y byddai'n ddefnyddiol cael man canolog i gyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch yr holl weithgareddau awyr agored yng Nghaerdydd. Ar ôl cytuno ar gynnwys a dylunio, daethai'r brand AAC yn fan canolog i'r timau gydweithio ar amryw brojectau ac mae'n adnodd defnyddiol i'r cyhoedd.





# Uchafbwyntiau a chflawniadau allweddol CGHT 2008-18 – 16 Nod Allweddol

| | Nodau Allweddol | Uchafbwyntiau allweddol Camau Gweithredu Targedig |
|---|---|---|
| 1. | **Map Diffiniol (MD): Datrys anghysondeb a chreu MD cyfoes i Gaerdydd** | • Pob map a datganiad MD drafft i'w cwblhau drwy Orchmynion Addasu Map Diffiniol (GAMD). Mae'r map diwygiedig ar gael 'yn fyw' ar [i-share Cyngor Caerdydd]<br>• Nodi llwybrau a chilffyrdd coll nad ydynt wedi'u cofrestru; roedd 23 o lwybrau wedi'u hawlio a'u cadarnhau dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.<br>• Roedd y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yn ddull defnyddiol i Ddatblygwyr i roi cyngor ar ymrwymiadau statudol profi ardal ddatblygu bosibl ar gyfer HTC ac ymgynghori â'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae'r Nodyn Canllaw Technegol (NCT) HTC nawr yn disodli'r CCA HTC ac yn cael ei roi i Ddatblygwr gan y tîm Cynllunio ar y cam ymgeisio. |
| 2. | **Cyfeirnodau/ Gwybodaeth: Gwella gweledded y rhwydwaith HTC ar lawr gwlad** | • Y llwybrau blaenoriaeth oedd y llwybrau hynny y tybiwyd eu bod y rhai mwyaf poblogaidd yng Nghaerdydd ar gyfer hamdden a chymudo; cawsant eu nodi gan ein partneriaid, a hefyd gosodwyd byrddau gwybodaeth ar y cyd â'r Tîm Cefn Gwlad.<br>• Arwyddion o ffyrdd metlin; mae'r tîm HTC bellach yn defnyddio'r rhaglen AMX, gan sicrhau bod llwybrau dinesig wedi dod yn rhan o'r cynllun cynnal a chadw cyffredinol. |
| 3. | **Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo: Gwella ymwybyddiaeth o HTC** | • Un o'r prif gyflawniadau o'r broses CGHT oedd creu brand, cynnwys gwefan a dyluniad Awyr Agored Caerdydd (AAC) yn sgil cydweithredu gyda phartneriaid mewnol y Cyngor (gan gynnwys Awdurdod yr Harbwr a Pharciau) fel modd o gydweithio ar brojectau amrywiol yn hyrwyddo pob gweithgaredd awyr agored.<br>• Cwblhaodd 673 o bobl yr Arolwg Cyhoeddus a rhoddwyd trosolwg o'r prif ganlyniadau yn y CGHT cyntaf (tudalennau 36-38). Ymgynghorwyd â grwpiau a sefydliadau eraill, gan gynnwys Cynghorau Cymuned, Cerddwyr, Cymdeithas Ceffylau Prydain, Ymgyrch Feicio Caerdydd, Sefydliad y Deillion Caerdydd a Fforwm Ieuenctid Caerdydd (tudalennau 37-40). Caiff yr ystadegau eu cymharu â'r Arolwg Cyhoeddus a waned yn 2018 yn y CGHT hwn; gweler 3.3 (o dudalen 37).<br>• Dosbarthu taflenni i dafarndai/caffis gwledig lleol a chanolfannau cymunedol lle maent yn cysylltu â llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo. |

| | | |
|---|---|---|
| 4. | **Teithiau Cylchol: Creu teithiau cerdded cylchol ategol** | • Mae creu teithiau cylchol wedi gwella hygyrchedd, h.y. gwaredu camfeydd lle y bo'n bosibl neu osod camau ar lethrau serth, ac amodau arwyneb yr HTC presennol. Mae'r teithiau cerdded hyn ar gael i'w lawrlwytho ar wefan AAC. Hefyd, mae gan yr adran Parciau raglen o Deithiau Tywys a Digwyddiadau sy'n cynnal gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn.<br>• Roedd gan lwybrau a hyrwyddwyd arwyddion arbennig, byrddau gwybodaeth wedi'u gosod ar y safle a thaflenni i'w lawrlwytho/argraffu i annog mwy o ymweliadau. Gosodwyd cyfrifwyr pobl hefyd i weld a oedd mwy o bobl yn defnyddio'r llwybrau.<br>• Mae arweinwyr Cerdded Er Lles Iechyd gwirfoddol yn defnyddio'r llwybrau hyn ar gyfer teithiau cerdded sy'n cael eu trefnu. |
| 5. | **Llwybr Arfordir Cymru (LIAC): Sicrhau cyfranogiad a chwblhau tasgau** | • Roedd yna gyllid grant ar wahân ar gyfer LIAC, felly ni chafodd unrhyw dasgau allweddol eu cynllunio fel rhan o'r CGHT cyntaf. Fodd bynnag, gan fod y LIAC (agorwyd Mai 2012) wedi'i gynnwys yn y CGHT cyntaf a bellach yn rhan o'r rhwydwaith HTC, cafodd sylwadau cyffredinol eu cynnwys.<br>• Yn 2008, gosodwyd pont ar Forglawdd Bae Caerdydd yn cysylltu Penarth â Bae Caerdydd, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn.<br>• Crëwyd 2 Hawl Dramwy Gyhoeddus newydd; Trowbridge 1 ar hyd y mur morol (dan A 26 Deddf Priffyrdd 1980) ac ar hyd glan orllewinol Afon Rhymni (dan A 26 y Ddeddf Priffyrdd, gyda dyraniad tir ym meddiant Dŵr Cymru), gan ychwanegu 5.1km i'r rhwydwaith HTC.<br>• Oherwydd yr amryw fesurau gwarchod bioamrywiaeth yn Aber Afon Hafren roedd angen cynnal Asesiadau Priodol i Gaerdydd, ac yna ar y cyd â chynghorau Casnewydd a Sir Fynwy, i ystyried effaith y llwybr. Yn dilyn hyn, roedd gwaith daear yn destun cyfyngiadau tymhorol. |
| 6. | **Hygyrchedd HTC: Sicrhau bod llwybrau realistig a rhesymol i ddefnyddwyr HTC anabl ac sydd â nam** | • Gwnaeth Mynediad Gwledig i Bawb redeg tan fis Chwefror 2010 ac roedd yn cynnwys Swyddog Cydraddoldeb Cyngor Caerdydd a sefydlodd Grŵp Ffocws Mynediad Cyngor Caerdydd (GFfMCC) sy'n rhan o ymgynghoriadau ar y CGHT 2020-30.<br>• Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth i wella mynediad i bawb ar draws y rhwydwaith llwybrau. Mae tua 50 o gamfeydd ar ymyl y ffordd a chaiff 10 camfa sydd wedi'u lleoli i ffwrdd o ymyl ffordd eu disodli gan gatiau, felly byddant wedi'u cynnwys yn y CGHT newydd.<br>• Nid yw 'Llwybrau Cylchol Taith Taf' na'r 'Pecyn Teithiau Cerdded Iach a Phrydferth' yn nodi lleoliadau'r rhwystrau ar hyn o bryd, ond mae Llwybrau Cylchol Taith Taf yn disgrifio'r llwybr, e.e. llethrau a grisiau. Yn y dyfodol, wrth i daflenni gael eu hadolygu neu eu diweddaru, caiff hyn ei gynnwys i helpu'r cyhoedd i gynllunio eu llwybrau. Maent ar gael i'w lawrlwytho o safle Awyr Agored Caerdydd. |
| 7. | **Cynnal a Gorfodi: Gwneud gweithdrefnau rheoli ffurfiol ac effeithlon** | • Mae'r rhaglen AMX â mapiau ar y wefan HTC er mwyn i'r cyhoedd allu 'Rhoi Gwybod am Broblem' gydag unrhyw HTC ar-lein.<br>• Mae grwpiau fel y FfMLI, Cerdded Er Lles Iechyd ac AAC wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran nodi problemau cynnal a chadw. Bydd mwy o gyswllt â Chynghorau Cymuned yn rhoi mwy o gyngor i'r tîm HTC ar lwybrau yn eu hardal y mae angen gwneud gwaith arnynt i helpu i gynllunio gwaith cynnal a chadw.<br>• Mae llythyrau gorfodi yn cael eu hanfon, ac mae cyfeiriad at y canllaw HTC ar y wefan. |

Cyngor Caerdydd - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2020-30

| | | |
|---|---|---|
| 8. | **Diogelwch: Rheoli pryderon diogelwch posibl** | • Drwy hyrwyddo teithiau tywys a llwybrau cylchol, mae defnydd o lwybrau wedi cynyddu.<br>• Mae'r tîm HTC wedi creu perthnasau â'r rhan fwyaf o Gynghorau Cymuned Caerdydd fel ffynonellau gwybodaeth ar lawr gwlad ar faterion diogelwch.<br>• Dylai datblygiadau newydd (e.e. CDLl) gydymffurfio â Chanllawiau Cynllunio Strategol i leihau perygl i'r cyhoedd. |
| 9. | **Beicio: Ymestyn y rhwydwaith o lwybrau beicio a gosod arwyddion** | • Mae hyn yn cynnwys cysylltu â'r Tîm Polisi Trafnidiaeth (TPT) sydd wedi creu Llwybrau Strategol sy'n cysylltu â HTC gan hefyd gysylltu â'r Map Rhwydwaith Integredig a'r CDLl i greu rhwydwaith cydlynol.<br>• Mynychodd y Swyddog HTC gyfarfodydd rhanbarthol am Daith Taf; sicrhaodd y grŵp fod yr arwyddion a'r marciau ar hyd y llwybr yr un peth. Mae Sustrans bellach yn cynnal arwyddion ac yn llunio taflenni gwybodaeth Taith Taf.<br>• Mae Sustrans wedi cynnal asesiad ac ymgynghoriad o Daith Taf ynghyd; roedd hyn yn cynnwys gwrthdaro rhwng defnyddwyr sy'n rhannu'r llwybr, ac yna gwnaed cynigion amrywiol i'w gweithredu yn y dyfodol.<br>• Yn dilyn cymeradwyaeth gan yr adran Parciau, cafodd rhwystrau beiciau modur eu symud gan TPT ar gamau cynnar y CGHT cyntaf. Mae'r adran Parciau yn delio â rhwystrau ym mholisi Parciau a Mannau Agored Caerdydd. |
| 10. | **Llwybrau Ceffyl: Cynyddu nifer y llwybrau hawdd eu defnyddio i farchogion** | • Mae llwybr ceffyl caniataol yn cael ei greu o amgylch llynnoedd Canada (Pentyrch) i greu llwybr cylchol i fynd â marchogion oddi ar y ffyrdd prysur, ond bu oedi oherwydd cyllid a chytundeb cyfreithiol rhwng y Cyngor a'r tirfeddiannwr.<br>• Gosodwyd arwyneb newydd ar rannau o'r lonydd gwyrdd dros y blynyddoedd i wella'r rhwydwaith oddi ar y ffordd i farchogion, ond mae angen cynnal a chadw'r llwybrau hyn. Y prif broblemau oedd y diffyg cyllid ac adnoddau staffio.<br>• Gosodwyd arwyddion ar y briffordd i rybuddio gyrwyr am geffylau mewn 10 lleoliad lle mae llwybrau ceffyl sy'n HTC yn ymuno â'r briffordd fabwysiedig. Mae adolygu'r arwyddion hyn yn un o nodau'r CGHT newydd. |
| 11. | **Llwybrau blaenoriaeth: Nodi a rheoli llwybrau blaenoriaeth** | • Fel rhan o Awyr Agored Caerdydd mae'r holl bartneriaid yn cyfrannu at hyrwyddo ar y cyd, sy'n digwydd yn barhaus.<br>• Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd y tîm HTC a'r tîm cynnal HTC a mynychir cyfarfodydd perthnasol eraill gan gynnwys FfMLI a Chynghorau Cymuned – cwblhawyd yr holl dasgau (100 %).<br>• Gosodwyd 'cyfrifwyr pobl', ond adolygir sut mae data'n cael ei gasglu a'i reoli. Bydd hon yn dasg â blaenoriaeth yn y CGHT newydd, ac ystyrir symud rhai i leoliadau newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| 12. | **Archwilio'r posibilrwydd o gael cyllid o ffynonellau ychwanegol** | • Cafwyd grantiau ychwanegol o brojectau partneriaeth drwy AAC; Cynllun Cerdded Er Lles Iechyd Caerdydd a Phrojectau Cefn Gwlad, a oedd yn cynnwys mentrau drwy Ecolegydd ac Adran Parciau'r Cyngor. Darperir cyllid y project gan Lywodraeth Cymru.<br>• Arferai Tîm Cefn Gwlad y Cyngor reoli'r projectau hyn, sydd nawr yn cael eu hariannu'n rhannol gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, grant refeniw sengl i ALlau yng Nghymru i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol a buddiannau amrywiol i gefnogi Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). |
| 13. | **Llwybrau defnydd a rennir: Rhaglen yn addysgu pobl i fod yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill y llwybr** | • Fel rhan o'i rôl, mae FfMLl (sy'n cynrychioli amrywiaeth o grwpiau defnyddwyr) yn ymateb yn weithredol i fentrau ac ymgynghoriadau newydd.<br>• Sylwer; ers cyhoeddi'r CGHT yn 2008, mae'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus bellach yn cynnwys cymal ar reoli cŵn. Nid yw Gorchmynion Rheoli Cŵn yn cael eu defnyddio mwyach.<br>• Cefnogi a hyrwyddo Cod Ymddygiad Caerdydd ar lwybrau a rennir ac ystyried cyfleoedd hyfforddi i wirfoddolwyr, fel cymorth cynnal a chadw, Arweinwyr Teithiau Cerdded ac ati, fel yr hyrwyddir ar wefan AAC.<br>• Arwyddion; rhywfaint o gynnydd gyda'r Cod Ymddygiad uchod.<br>• Mae'r Cod Cefn Gwlad ar gael drwy ddolen ar y wefan HTC ac AAC. |
| 14. | **Rhoi gwaith cynnal a chadw'r rhwydwaith ar gontract allanol: a yw'n bosibl trosglwyddo cyfrifoldeb** | • Cysylltwyd â Chynghorau Cymuned, grwpiau cymunedol ac Adrannau'r Cyngor i ddeall lle mae angen gwneud gwelliannau ar y rhwydwaith a chreu cyfleoedd i weithio gyda gwirfoddolwyr ar brojectau ar rwydwaith y HTC. G |
| 15. | **Sbwriel ar HTC: Sut i ddelio â hyn ymarferol** | • Mae 'Rhoi gwybod am broblem' yn cael cyhoeddusrwydd drwy wefan Cyngor Caerdydd ac mae'r tîm HTC yn parhau i gysylltu â Rheoli Gwastraff i roi gwybodaeth am dipio anghyfreithlon fel mesur ymatebol. Mae Rover Way yn fan problematig; mae'r tîm HTC yn gweithio gyda Rheoli Gwastraff, Swyddogion Cyngor amrywiol a sefydliadau i ddatrys y broblem, ond mae hon yn broblem ar gyfer safle penodol yn hytrach na phroblem gyffredinol ar draws y rhwydwaith. Bydd y system AMX yn fodd o rifo problemau a mannau problematig ailadroddus.<br>• Mae Cadwch Gymru'n Daclus a Cadwch Gaerdydd yn Daclus yn taclo sbwriel yng Nghaerdydd gyda gwirfoddolwyr; gwneir hyn yn annibynnol ar y mwyaf ac nid yw'n ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus, fodd bynnag cliriwyd ardaloedd o LIAC cyn agoriad swyddogol LIAC. |
| 16. | Canlyniadau cyflym ac arolygon rhwydwaith: Annog defnydd cyhoeddus o HTC. Cynnal arolygon rheolaidd | • Cynhaliwyd arolwg o'r llwybrau cerdded gan nodi'r holl ddodrefn, math yr arwyneb a chyflwr y llwybrau, ond ni chafodd ei gwblhau. Rhoddodd yr arolwg fanylion am gyflwr, math ac unrhyw ofynion cynnal a chadw.<br>• Helpodd hyn i nodi lle roedd angen gwneud gwelliannau i wella mynediad i bawb.<br>• Er bod y system CAMS wedi'i defnyddio'n wreiddiol i gofnodi'r materion hyn, mabwysiadwyd y system AMX tua diwedd cyfnod o CGHT cyntaf. |


**Mae'r Adolygiad llawn o CGHT cyntaf 2008-18 are gael ar y** dudalen we CGHT





## Atodiad 4 – Diffiniad o ddadansoddiad SWOT a Strategaethau Allweddol

Defnyddiwyd yr offeryn dadansoddi busnes safonol hwn i ddiffinio'r **Strategaethau Allweddol** a deall y cyfleoedd neu'r bygythiadau a allai effeithio ar bob strategaeth dros y 10 mlynedd nesaf.



## Strategaethau Allweddol CGHT – Dadansoddiad SWOT

**Dadansoddiad SWOT ar Strategaeth CGHT 1: Datblygu system reoli fwy effeithlon ar gyfer gwaith Hawliau Tramwy statudol**

**Disgrifiad o'r strategaeth:** Bydd rheolaeth y rhwydwaith HTC yn cael ei chefnogi'n llawn gan ddatblygiad parhaus a mewnbwn data i System Rheoli Digidol y Cyngor (DMS). Bydd yn darparu allbynnau allweddol ar gyfer rheoli, cynnal ac adrodd ar unrhyw faterion ar rwydwaith HTC a'i restr. Mae hyn yn cynnwys arwyddion, clirio llwybrau, arwynebau ac unrhyw waith sydd ei angen i sicrhau bod llwybrau ar gael yn llawn ac yn addas i'r pwrpas. Mae hefyd yn cynnwys yr angen i ystyried ecosystemau a mynediad i bawb. Y strategaeth hon yw'r strategaeth drosfwaol a bydd yn cysylltu â strategaethau 2-5.

| Ffactorau Mewnol : Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| • Tîm ymroddedig, brwdfrydig HTC a Swyddogion Cynnal a Chadw. Perthynas waith dda gyda Pharciau, Tîm Llwybrau Cyflymder Uchel/ Teithio Llesol a Chontractwyr i gydlynu diwrnodau gwaith.<br>• DMS sydd eisoes yn cael eu defnyddio o fewn Priffyrdd gyda gwybodaeth HTC sylfaenol wedi'i lanlwytho; gwybodaeth ar gael i sefydlu arolygon cyflwr.<br>• Mae ailstrwythuro tîm HTC eisoes wedi digwydd felly mae'r sefyllfa bresennol yn sefydlog ac mae gwaith statudol yn cael ei reoli.<br>• Gellir ariannu mân waith gwella gan gyllidebau ychwanegol.<br>• Mae costau dodrefn HTC yn fach iawn (cyfeirbwyntiau) | • Diffyg staff ychwanegol i gynnwys salwch/ gwyliau blynyddol, gan achosi oedi wrth gyflenwi cynnal a chadw<br>• Angen adnoddau ychwanegol i reoli gwirfoddolwyr a rhaglenni gwaith.<br>• Gallai ailstrwythuro sefydliadau yn y dyfodol arwain at newidiadau i staff ac adnoddau.<br>• Dibynnu ar staff eraill i helpu i ddatblygu arolwg cyflwr yn y DMS.<br>• Cyfyngiadau amser ar gyfer hyfforddiant staff HTC sy'n ofynnol ar gyfer DMS.<br>• Mae tîm HTC wedi'u lleoli yn yr adran Priffyrdd gyda chyllidebau cysylltiedig; pan nodir cynlluniau priffyrdd mwy, efallai y bydd cyfyngiadau cyllidebol yn gyfyngedig gan y gall fod gwaith arall â blaenoriaeth ar draws y rhwydwaith Priffyrdd. |
| **Ffactorau Allanol : Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Cyfle i weithio gyda gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda gwaith gwella llwybrau.<br>• Gall gweithio ar y cyd â sefydliadau a grwpiau cymunedol ddarparu mynediad at gyllid grant ychwanegol a chymorth i gyflenwi projectau.<br>• Gall Ceisiadau Cynllunio sy'n effeithio ar lwybrau HTC gynnwys gwelliannau i lwybrau a darparu llwybrau newydd i gymunedau, llwybrau Teithio Llesol a mannau gwyrdd. | • Methu rheoli rhaglen waith a darparu hyfforddiant priodol i wirfoddolwyr.<br>• Efallai na ellir recriwtio gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda gwelliannau HTC.<br>• Ni ellir rhagweld y cyllid grant ychwanegol i gynlluniau mwy ar gyfer cynllunio tymor hir<br>• Gall datblygiadau fod yn niweidiol i rwydwaith HTC os nad ymdrinnir â hwy yn gynnar er mwyn sicrhau bod llwybrau'n cael eu diogelu a'u gwella<br>• Os na fydd tirfeddianwyr yn cynnal dodrefn a llwybrau sy'n croesi eu tir, bydd hyn yn arwain at gamau gorfodi ac angen amser staff ychwanegol i weinyddu cyfnodau allweddol. |

**Tystiolaeth sy'n cefnogi'r Strategaeth Allweddol uchod:**

**Cam 3 – Tystiolaeth Adolygiad CGHT 1af:** Tasg 2 Gwella gwelededd rhwydwaith HTC ar lawr gwlad trwy arwyddion; Tasg 4.3 Sicrhau bod ymylon glaswellt ar hyd y teithiau cylch yn cael eu cynnal; Tasg 5 Llwybr Arfordir Cymru; Tasg 6.2 Rhoi giatiau neu fylchau yn lle camfeydd; Tasg 7 Cynnal a Chadw a Gorfodi (gwneud gweithdrefnau rheoli ffurfiol, effeithlon); Tasg 8.2 Clirio llystyfiant i leihau parthau tywyll sy'n creu ofnau diogelwch; Tasg 11 Nodi a rheoli llwybrau blaenoriaeth; Tasg 12 Adnabod adnoddau ariannu ychwanegol; Tasg 14 Gweithio mewn partneriaeth i helpu i gynnal llwybrau HTC; Tasg 15 Adrodd am Broblem; Tasg 16 Cynnal arolygon cyfnodol o'r rhwydwaith.

**Cam 4 – Tystiolaeth yr Asesiad Newydd:** 3.2 Arolygon cyflwr y rhwydwaith HTC; 3.3 Gwelliannau Seilwaith Gwyrdd, agenda Teithio Llesol, datblygiadau lleol sy'n effeithio ar lwybrau HTC, Uchelgais Prifddinas i wella iechyd a llesiant, cyfleoedd gwirfoddoli.

**Canlyniadau'r Arolwg Cyhoeddus:** C3 Pwysigrwydd a chynnydd yn y defnydd o HTC; C4 Mwy o gyfranogiad ar lwybrau HTC; C8 nodi rhwystrau sy'n atal defnyddwyr rhag cael mynediad; C9 mathau eraill o rwystrau; C11 Gwelliannau a awgrymir.





**Dadansoddiad SWOT ar Strategaeth CGHT 2: Cynyddu mynediad i bawb trwy welliannau rhwydwaith**

**Disgrifiad o'r strategaeth:** Mae hyn yn seiliedig ar yr angen i ddarparu'r mynediad lleiaf cyfyngol i Hawliau Tramwy Cyhoeddus a bydd hyn yn sbardun i newid yn sgil unrhyw welliannau i'r rhwydwaith. Er enghraifft, gellid gosod giatiau neu fylchau yn lle camfeydd presennol, ayb.

| Ffactorau Mewnol : Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| • Bydd ymgynghoriadau mewnol gyda CCAFG, Rhwydwaith Cydraddoldeb ac Anabledd yn helpu tîm HTC i ddeall yr amrywiol heriau mynediad, gofynion mynediad ac ystyriaethau safle penodol ar gyfer gwelliannau ar draws y rhwydwaith.<br>• Strategaeth Allweddol 1; bydd canlyniadau'r arolwg cyflwr o gronfa ddata DMS yn darparu'r gallu i nodi lleoliadau sydd angen gwelliannau, blaenoriaethu ardaloedd o angen a llywio penderfyniadau o ddydd i ddydd.<br>• Arbenigwyr o fewn yr adran Priffyrdd a chontractwyr yn eu lle i wneud mân welliannau i lwybrau, gan leihau amser a chostau.<br>• Mae gan staff mewnol yr hyfforddiant a'r arbenigedd i ddiweddaru'r wefan a gwybodaeth hyrwyddo i gynorthwyo'r cyhoedd | • Bydd y cyllidebau sydd ar gael yn pennu pa welliannau y gellir eu gwneud.<br>• Anhawster wrth gydbwyso'r angen rhwng un grŵp defnyddwyr ac un arall mewn meysydd o gymhlethdod.<br>• Bydd angen adnoddau ychwanegol i ddiweddaru'r wybodaeth ar y wefan a deunyddiau printiedig presennol, a bydd eu darparu mewn fformat sy'n addas ar gyfer grwpiau defnyddwyr amrywiol angen cyllid i greu ac ailargraffu |
| **Ffactorau Allanol : Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Eisoes mae cynnydd yn nifer y cyhoedd sy'n defnyddio'r rhwydwaith a chyda gwybodaeth ychwanegol am hygyrchedd y rhwydwaith, bydd defnyddwyr llwybrau yn gallu gwneud penderfyniad mwy gwybodus ynghylch pa lwybrau sy'n addas ar eu cyfer.<br>• Pan ystyrir gwelliannau, mae deddfwriaeth a chanllawiau ar gael yn rhwydd i sicrhau bod llwybrau'n cael eu hadeiladu'n briodol, a bod strwythurau/dyluniad yn ystyried gofynion deddfwriaethol Deddf Cydraddoldeb 2010.<br>• Creu llwybrau mwy hygyrch trwy ddatblygiadau newydd. | • Efallai na fydd contractwyr ar ddatblygiadau newydd lle ceir llwybrau HTC yn ystyried gwelliannau llwybrau gan eu bod yn rhy gostus, neu y tu hwnt i'r hyn y maent yn ei ystyried yn angenrheidiol neu'n ofynnol.<br>• Efallai na fydd rhai tirfeddianwyr yn cytuno ar welliannau y mae HTC yn eu hargymell oherwydd ofn y bydd mwy o ddefnyddwyr ar eu tir, ofn materion rheoli stoc, costau, ayb.<br>• Gall creu llwybrau mwy hygyrch sbarduno camddefnyddio, e.e. tipio anghyfreithlon, beiciau modur, ayb.<br>• Gallai creu llwybrau mwy hygyrch o fewn datblygiad tra bod y llwybrau presennol gerllaw mewn cyflwr gwael neu heb yr un lefel o hygyrchedd greu annigonolrwydd ar draws y rhwydwaith. |

**Tystiolaeth sy'n cefnogi'r Strategaeth Allweddol uchod:**

**Cam 3 – Tystiolaeth Adolygiad CGHT 1af:** Tasg 2 Gwella gwelededd rhwydwaith HTC ar lawr gwlad trwy arwyddion; Tasg 3 Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo (gwella ymwybyddiaeth o rwydwaith HTC); Tasg 4 Creu teithiau cylchol atodol; Tasg 6 Sicrhau llwybrau realistig a rhesymol ar gyfer defnyddwyr HTC Anabl a'r rhai â nam; Tasg 9.3 Tynnu rhwystrau beiciau modur lle bo'n briodol; Tasg 11 Nodi a rheoli llwybrau blaenoriaeth; Tasg 12 Adnabod adnoddau ariannu ychwanegol; Tasg 14.1 Gwella ac ymestyn cysylltiadau â Chynghorau Cymuned; Tasg 16 Cynnal arolygon cyfnodol o'r rhwydwaith.

**Cam 4 – Tystiolaeth yr Asesiad Newydd**: 3.2 Arolygon cyflwr y rhwydwaith HTC; 3.3 Gwelliannau Seilwaith Gwyrdd, agenda Teithio Llesol, datblygiadau lleol sy'n effeithio ar lwybrau HTC, Uchelgais Prifddinas i wella iechyd a llesiant.

**Canlyniadau'r Arolwg Cyhoeddus:** C3 Pwysigrwydd a chynnydd yn y defnydd o HTC; Cynnydd yn y bobl â nam sy'n defnyddio rhwydwaith HTC (e.e. roedd gan 1 o bob 20 o ymatebwyr nam symudedd); C4 Mwy o gyfranogiad ar lwybrau HTC; C5 amrywiol resymau dros ddefnyddio llwybrau; C8 Rhwystrau wedi'u nodi i atal defnyddwyr rhag cael mynediad; C9 mathau eraill o rwystrau; C11 Gwelliannau a awgrymir.

**Dadansoddiad SWOT ar Strategaeth CGHT 3: Gwella a hyrwyddo'r rhwydwaith HTC a gweithgareddau awyr agored.**

**Disgrifiad o'r strategaeth:** Annog a chefnogi'r cyhoedd i gael mynediad i'r rhwydwaith HTC a mannau gwyrdd ar draws y ddinas, trwy amrywiol ddeunyddiau hyrwyddo gan gynnwys yn electronig, byrddau gwybodaeth ar y safle a thaflenni wedi'u hargraffu.

### Ffactorau Mewnol : Cryfderau

- Mae gan staff mewnol y gallu, yr hyfforddiant a'r arbenigedd i ymgymryd â gwaith hyrwyddo amrywiol, e.e. diweddaru mapio ar-lein a gwefan, dylunio deunydd hyrwyddo i'w argraffu, cynnal digwyddiadau a gweithgareddau, ayb.
- Cynhelir y rhan fwyaf o waith hyrwyddo mewn cydweithrediad ag adrannau eraill y Cyngor (e.e. Parciau, Awdurdod yr Harbwr, ayb).
- Cysylltiadau cyfathrebu da trwy rwydweithiau'r Cyngor (e.e. cyfryngau cymdeithasol, tudalennau gwe), adrannau Awyr Agored Caerdydd, Cynghorau Cymuned a Hybiau Cyngor i hyrwyddo digwyddiadau sydd ar y gweill neu i lansio llwybrau newydd.

### Gwendidau

- Mae ailargraffu taflenni a chreu byrddau gwybodaeth ar y safle yn gostus ac yn gyfyngedig i brojectau partneriaeth, lle mae'n bosibl y ceir cyllid ychwanegol.
- Mae amser staff yn gyfyngedig i ddiweddaru'r wefan a chymryd rhan mewn digwyddiadau lleol a fyddai o fudd i'r cyhoedd i roi gwybod iddynt am lwybrau a gweithgareddau awyr agored.
- Mae gwella sut mae gwybodaeth hyrwyddo yn cael ei darparu trwy dechnoleg newydd yn gostus, felly bydd yn gyfyngedig i argaeledd cyllid.

### Ffactorau Allanol : Cyfleoedd

- Bydd mwy o wybodaeth a manylion mynediad ar gael i'r cyhoedd a bydd hyn yn annog mwy o bobl i gael mynediad i'r rhwydwaith HTC a mannau gwyrdd.
- Y gallu i ddadansoddi sut y gellir cyrchu gwefan Awyr Agored Caerdydd a gwefannau'r Cyngor, ynghyd â gweithgareddau chwilio poblogaidd, i ddeall diddordeb y cyhoedd yn well.
- Yn gyffredinol, mae lleoliadau ac adeiladau cymunedol yn barod i gynnal gwybodaeth a thaflenni hamdden awyr agored.
- Cydweithio â grwpiau a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo Awyr Agored Caerdydd a chynnal digwyddiadau

### Bygythiadau

- Heb y gallu i barhau i ddarparu taflenni/ gwybodaeth argraffedig, efallai y bydd pobl yn cael eu cyfyngu o ran eu gallu i gael gafael ar wybodaeth. Nid yw deunydd y gellir ei lawrlwytho o'r wefan ar gael i bob defnyddiwr.
- Efallai na fydd deunydd hyrwyddo mewn mannau amlwg mewn lleoliadau.
- Methu cynnal ymgynghoriadau rheolaidd gyda'r cyhoedd i gasglu mwy o wybodaeth am yr hyn sydd ei angen arnynt, i annog mwy o bobl i gael mynediad i'r awyr agored a darganfod y math o wybodaeth a fyddai'n eu helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am lwybrau sy'n addas iddynt.

**Tystiolaeth sy'n cefnogi'r Strategaeth Allweddol uchod:**

**Cam 3 – Tystiolaeth Adolygiad CGHT 1af:** Tasg 2 Gwella gweleddedd rhwydwaith HTC ar lawr gwlad trwy arwyddion; Tasg 3 Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo (gwella ymwybyddiaeth o rwydwaith HTC); Tasg 4 Creu teithiau cylchol atodol; Tasg 5 Llwybr Arfordir Cymru; Tasg 6 Sicrhau llwybrau realistig a rhesymol ar gyfer defnyddwyr HTC anabl a'r rhai â nam; Tasg 8 Rheoli ofnau diogelwch canfyddedig; Tasg 12 Adnabod adnoddau ariannu ychwanegol; Tasg 13.2 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cod Cefn Gwlad.

**Cam 4 – Tystiolaeth yr Asesiad Newydd:** 3.3 Gwelliannau Seilwaith Gwyrdd, agenda Teithio Llesol, gwella gwefan a deunyddiau Awyr Agored Caerdydd, Uchelgais Prifddinas i wella iechyd a llesiant, hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli.

**Canlyniadau'r Arolwg Cyhoeddus**: C3 Pwysigrwydd a chynnydd yn y defnydd o HTC; C5 rhesymau dros ddefnyddio llwybrau; C6 Defnydd cymdeithasol deinamig o lwybrau; C8 Rhwystrau wedi'u nodi i atal defnyddwyr rhag cael mynediad; C9 mathau eraill o rwystrau; C11 Gwelliannau a awgrymir.





**Dadansoddiad SWOT ar Strategaeth CGHT 4: Cadw a gwella'r rhwydwaith HTC ac ecosystemau**

**Disgrifiad o'r strategaeth:** Rheoli a diweddaru'n effeithiol y Map Diffiniol a'r Datganiad ac unrhyw newidiadau i'r rhwydwaith megis dargyfeirio, diddymu a chreadigaethau. Dilynnir unrhyw gyfleoedd i wella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, megis ystyried projectau newydd (e.e. llwybrau ceffylau), cysylltiadau strategol (e.e. trawsffiniol), ffyrdd o wella llwybrau presennol (e.e. mynediad i bawb - gweler 2 uchod) ac ystyriaeth o ecosystemau a gwaith tymhorol. Bydd y rhain yn ddibynnol ar gyllid.

### Ffactorau Mewnol : Cryfderau

- Derbynnir rhybudd ymlaen llaw o gyn-geisiadau gan yr Adran Gynllunio, sy'n caniatáu cyfranogiad cynnar gan y Grŵp Seilwaith Gwyrdd (GIG) i ystyried gwelliannau HTC, gwelliannau neu liniaru ecoleg, cysylltiadau Teithio Llesol, ayb.
- Mae'r Map Diffiniol ar gael ar-lein ac mae'n helpu'r cyhoedd i nodi llwybrau y dymunant eu gwella ac yn hysbysu tirfeddianwyr/ datblygwyr o lwybrau a allai effeithio ar unrhyw gynigion i newid defnydd eu tir.
- Arbenigedd yn y Tîm HTC i gynghori datblygwyr/ tirfeddianwyr a hefyd i weithio'n agos gyda'r Adran Gyfreithiol ar ymholiadau amrywiol a gorchmynion llwybrau.
- Bydd Strategaeth Allweddol 1 yn hysbysu Tîm HTC i nodi gwelliannau i lwybrau a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus o flaenoriaethau.

### Gwendidau

- Mae nifer fawr o geisiadau cynllunio sydd angen ymgynghoriad HTC a rhai gydag angen prosesu gorchmynion cyfreithiol.
- Diffyg adnoddau staff i ddilyn datblygiadau gydag archwiliadau safle yn rheolaidd, i sicrhau bod gweithdrefnau cyfreithiol yn cael eu dilyn a bod y trwyddedau cywir yn eu lle.
- Nodwyd nifer o brojectau allweddol drwy'r CGHT a'r Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd; fodd bynnag, mae adnoddau staff a chyllid yn gyfyngedig, felly gall gweithredu fod yn araf o safbwynt ymdrin ag anghenion yr amgylchedd a'r cyhoedd.

### Ffactorau Allanol : Cyfleoedd

- Bydd y dasg hon yn hyrwyddo gweithio buddiol gydag ALlau cymdogol ar lwybrau trawsffiniol.
- Cydweithredu â sefydliadau a grwpiau cymunedol i helpu i ariannu gwelliannau, gwella ecosystemau a chreu llwybrau hyrwyddo.
- Creu llwybrau pellter hir drwy waith partneriaeth gydag awdurdodau cymdogol a thimau Teithio Llesol.

### Bygythiadau

- Efallai na fydd contractwyr ar ddatblygiadau newydd lle mae HTCau yn ystyried gwelliannau i lwybrau ac efallai na fydd rhai tirfeddianwyr yn cytuno ar welliannau i lwybrau ar gais HTC.
- Gallai datblygwyr rwystro llwybrau sy'n croesi eu safle yn ystod gwaith adeiladu, gan arwain at faich ychwanegol ar amser staff i gymryd camau gorfodi.
- I greu llwybrau newydd gallai fod angen talu iawndal i'r tirfeddiannwr.

**Tystiolaeth sy'n cefnogi'r Strategaeth Allweddol uchod:**

**Cam 3 – Tystiolaeth Adolygiad CGHT 1af:** Tasg 1 Datrys anghysondebau cyfredol a chynhyrchu Map Diffiniol cyfoes; Tasg 2 Gwella gweleddedd rhwydwaith HTC ar lawr gwlad trwy arwyddion; Tasg 3.3 Sefydlu 'corff rhanbarthol' gydag awdurdodau cyfagos; Tasg 6 Sicrhau llwybrau realistig a rhesymol ar gyfer defnyddwyr HTC anabl a'r rhai â nam; Tasg 7 Cynnal a Chadw a Gorfodi (Gwneud gweithdrefnau rheoli ffurfiol, effeithlon); Tasg 10 Cynyddu llwybrau hygyrch i farchogion; Tasg 11 Nodi a rheoli llwybrau blaenoriaeth; Tasg 12 Adnabod adnoddau ariannu ychwanegol; Tasg 13.1 Ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol.

**Cam 4 – Tystiolaeth yr Asesiad Newydd:** 3.2 Arolwg cyflwr y rhwydwaith HTC i nodi llwybrau; 3.3 Gwelliannau Seilwaith Gwyrdd, agenda Teithio Llesol, datblygiadau lleol sy'n effeithio ar lwybrau HTC, cysylltiadau trawsffiniol a chyfleoedd gwirfoddoli.

**Canlyniadau'r Arolwg Cyhoeddus**: C3 Pwysigrwydd a chynnydd yn y defnydd o HTC; C4 Mwy o gyfranogiad ar lwybrau HTC; C5 cymhariaeth o'r rhesymau dros ddefnyddio llwybrau; C8 Rhwystrau wedi'u nodi i atal defnyddwyr rhag cael mynediad; C9 mathau eraill o rwystrau; C11 Gwelliannau a awgrymir.

**Dadansoddiad SWOT ar Strategaeth CGHT 5: Bod yn ymatebol i Ddeddfwriaeth newydd, cynlluniau a strategaethau lleol diwygiedig a datblygiadau tir sy'n dod i'r amlwg.**

**Disgrifiad o'r strategaeth:** Dros y 10 mlynedd nesaf, mae'n debygol y bydd digwyddiadau annisgwyl yn effeithio ar y rhwydwaith HTC. Ymdrinnir â'r rhain drwy'r Cynlluniau Cyflenwi i sicrhau bod y rhwydwaith yn cael ei gynnal a'i reoli'n ymatebol i newidiadau mewn deddfwriaeth, cynlluniau a strategaethau.Telir sylw arbennig i HTC yr effeithir arnynt gan ddatblygiadau tir newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw a'u gwella.

| Ffactorau Mewnol : Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| • Mae HTC yn derbyn rhybudd ymlaen llaw am strategaethau newydd a newidiadau cynllun. Mae arbenigedd staff mewnol yn cefnogi HTC i ddeall sut y gallai'r rhain effeithio ar strategaethau gwaith parhaus a chynlluniau yn y dyfodol.<br>• Mae rhybudd ymlaen llaw o geisiadau cynllunio yn caniatáu ymgynghoriadau mewnol cychwynnol gyda GIG, datblygwyr a chynllunwyr.<br>• Y gallu i greu canllawiau cliriach i ddatblygwyr a thirfeddianwyr er mwyn sicrhau bod llwybrau'n parhau i fod yn agored, yn hygyrch a bod gorchmynion/ trwyddedau cyfreithiol yn cael eu caffael lle bo'n briodol. | • Gall pwysau gwleidyddol herio ceisiadau gan HTC.<br>• Angen dyraniad amser i dîm HTC ymchwilio ar y safle lle mae datblygiadau arfaethedig a thrafod gyda datblygwyr i wella llwybrau presennol neu neilltuo llwybrau newydd a nodwyd. Nid oes gwarant y bydd datblygwyr yn cytuno na'n dymuno talu costau.<br>• Gall datblygwyr a thirfeddianwyr ddewis anwybyddu canllawiau deddfwriaeth sy'n golygu bod rhaid i'r tîm HTC gymryd camau gorfodi, gan arwain at gostau amser staff ac adnoddau |
| **Ffactorau Allanol : Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Mae nodau a strategaethau allweddol CGHT yn alinio â Datganiadau Ardal CNC ac yn gyfle i gydweithredu ar broject.<br>• Gall agendâu cenedlaethol fod o fudd i gynigion HTC ar gyfer gwelliannau i ddiwallu'r angen (e.e. manteision iechyd a hyrwyddir gan y GIG, Teithio Llesol a chynlluniau cerdded i waith/ ysgol, ayb).<br>• Gall rhai datblygiadau tir newydd fod o fudd i'r rhwydwaith HTC.<br>• Mae gweithio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos a mynychu'r grŵp cenedlaethol (Grŵp Rheoli Hawliau Tramwy Cymru) yn rhoi gwybodaeth am yr arferion gorau, cyngor a'r diweddaraf am ganllawiau cenedlaethol. | • Gall datblygiadau effeithio'n andwyol ar lwybrau HTC ac efallai na ellir eu cadw mewn mannau gwyrdd.<br>• Gall deddfwriaeth newydd neu strategaethau lleol ei gwneud yn ofynnol i HTC adolygu polisïau a gweithdrefnau. Mae hyn yn angenrheidiol, ond gall gwaith paratoi ddwyn amser oddi ar waith blaenoriaeth arall.<br>• Efallai y bydd angen canolbwyntio mwy ar agendâu gwleidyddol mewn meysydd eraill o fewn strategaethau a chynlluniau lleol, felly efallai na fydd HTC yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth dros gynlluniau eraill. |

**Tystiolaeth sy'n cefnogi'r Strategaeth Allweddol uchod:**

**Cam 3 - Tystiolaeth Adolygiad CGHT 1af:** Tasg 1 Datrys anghysondebau cyfredol a chynhyrchu Map Diffiniol cyfoes; Tasg 2.1 Gosod arwyddion mwy cyffredinol (cysylltu â grwpiau cenedlaethol ac awdurdodau cyfagos); Tasg 6 Sicrhau llwybrau realistig a rhesymol ar gyfer defnyddwyr HTC anabl a'r rhai â nam; Tasg 9 Ymestyn rhwydwaith o lwybrau beicio ac arwyddbyst (Map Rhwydwaith Integredig); Tasg 11.1 Ymchwilio i ymarferoldeb gweithredu 'llwybrau dymunol' a awgrymir gan FfMLl (ceisiadau cynllunio); Tasg 12 Adnabod adnoddau ariannu ychwanegol; Tasg 13.1 Ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol.

**Cam 4 – Tystiolaeth yr Asesiad Newydd:** 3.2 Arolygon cyflwr y rhwydwaith HTC; 3.3 Gwelliannau Seilwaith Gwyrdd, agenda Teithio Llesol, datblygiadau lleol sy'n effeithio ar lwybrau HTC, Uchelgais Prifddinas i wella iechyd a llesiant, cysylltiadau trawsffiniol.

**Canlyniadau'r Arolwg Cyhoeddus:** C3 Pwysigrwydd a chynnydd yn y defnydd o HTC; C4 Mwy o gyfranogiad ar lwybrau HTC; C5 cymhariaeth o'r rhesymau dros ddefnyddio llwybrau; C8 Rhwystrau wedi'u nodi i atal defnyddwyr rhag cael mynediad; C9 mathau eraill o rwystrau; C11 Gwelliannau a awgrymir.





## Atodiad 5 - Asesiad Amgylcheddol Strategol

Cynhaliwyd proses sgrinio AAS gan Dîm Datblygu Cynaliadwy'r Cyngor, a gadarnhaodd nad oedd angen AAS. Mae'r amlinelliad gyferbyn yn dangos penderfyniadau'r broses sgrinio.

1. Caiff - Caiff y CGHT ei fabwysiadu gan Gyngor Caerdydd.
2. Ydy - Mae'r ddogfen hon yn ofynnol dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
3. Nac ydy - Mae'r CGHT yn berthnasol i drafnidiaeth, ond nid yw'n gosod fframwaith ar gyfer caniatâd datblygu yn y dyfodol i brojectau yn Atodiadau I a II i'r Gyfarwyddeb AEA.
4. Nac ydy - Nid yw'r ddogfen yn gofyn am asesiad dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.
5. Nac ydy - Nid yw'r CGHT yn gosod fframwaith ar gyfer caniatâd datblygu yn y dyfodol. Gan mai'r ymateb i gwestiwn 6 yw 'nac ydy', nid oes angen AAS ar y CGHT.

Bydd y ddogfen CGHT yn llywio Cynlluniau Cyflawni blynyddol gyda phrojectau safle-benodol i wella a diogelu'r amgylchedd. Gallai'r Cynlluniau Cyflawni ofyn am broses sgrinio AAS, a chynhelir hon cyn cytuno ar y rhaglen. Gallai fod angen trwyddedau a/neu ganiatâd ar brojectau penodol i gyflawni gwaith, felly bydd swyddogion yn cysylltu â sefydliadau a Swyddogion y Cyngor yn ôl y gofyn (e.e. Cadw, CNC, Ecolegydd Cyngor Caerdydd, Parciau ac ati).



*Coed Fforest Fawr gan hearts_entwined_photography*




*Corryn gan gar_daviess*

Mae Ffigur 2 o 'A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive'
https://www.gov.uk/government/publications/strategic-environmental-assessment-directive-guidance

## Ffigur 2 - Gweithredu Cyfarwyddeb yr AAS i gynlluniau a rhaglenni

Bwriedir y diagram hwn fle canllaw i feini prawf gweithredu'r Gyfarwyddeb ar gynlluniau a rhaglenni (CRhau) Nid oes statws gyfreithiol iddo.




*Mae'r Gyfarwyddeb yn mynnu i Aelod Wladwriaethau bennu a yw cynlluniau neu raglenni yn y categori hwn yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Gellir pennu'r penderfyniadau hyn fesul achos a/neu yn ôl mathau arbennig o gynllun neu raglen.





## Atodiad 6 – Rhestr Ymgynghori CGHT

**Swyddogion HTC Awdurdodau Cyfagos:**
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Dinas Casnewydd

**Cynghorau a Chynghorwyr Cymuned:**
Cyngor Cymuned Llys-faen
Cyngor Cymuned Pentref Llaneirwg
Cyngor Cymuned Pentyrch
Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth
Cyngor Cymuned Sain Ffagan
Cyngor Cymuned Tongwynlais
Holl Gynghorwyr Cyngor Caerdydd

**Adrannau Mewnol y Cyngor:**
Prif Weithredwr
Trafnidiaeth
Cynllunio, hefyd Swyddog Coed ac Ecolegydd
Parciau
Tîm Draenio a Lliniaru Llifogydd
Swyddog Cydraddoldeb a CCAFG
Partneriaeth Caerdydd
Cymunedau yn Gyntaf
Tai
Adfywio
Ystadau Strategol
Twristiaeth
Awdurdod yr Harbwr
Trefniadaeth Ysgolion
Cyfathrebu a'r Cyfryngau
Craffu

**Rhwydweithiau Gweithwyr Cyngor Caerdydd:**
Rhwydwaith Lleiafrifoedd Ethnig a Du
Rhwydwaith Gofalwyr
Rhwydwaith Anabledd
Rhwydwaith LBGT
Rhwydwaith Menywod

**Cyfleustodau:**
Dŵr Cymru
Virgin Media
Wales and West Utilities
Western Power
BT

**Grwpiau/Sefydliadau Defnyddwyr:**
Fforwm Mynediad Lleol
Cerddwyr Caerdydd
Cerddwyr Cymru
Cerddwyr Tiger Bay
Undeb Beiciau Modur
Cymdeithas Ceffylau Prydain
S.A.F.E
Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau
Cymdeithas Mannau Agored
Clwb Teithio Beicwyr
Cymdeithas Marchogion Llwybr Cymru
Taffys Trails
Cymdeithas Cerddwyr Pellter Hir
LDWA De Cymru
Clwb Cerdded CHA Caerdydd
Grŵp Awyr Agored Caerdydd
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Arolwg Ordnans
Chwaraeon Cymru
Chwaraeon Anabledd Cymru
Athletau Cymru
Clwb Cyfeiriannu De Cymru
Cymdeithas Yrru Prydain
Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol
Ffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Llwybrau Ceffyl
TRF De Cymru (Marchogion Llwybrau)
TRF De Ddwyrain Cymru
Croeso Cymru
Sustrans
Dinas Feicio Caerdydd
Beicio Cymru (De-ddwyrain Cymru)
Cycling UK
Pedal Power
Cymdeithas Mynediad Tir a Hamdden
Y Gofrestrfa Tir
Arolygiaeth Gynllunio
CALM (Mynediad Cefn Gwlad i'r rhai llai symudol)
Cooke and Arkwright (asiantau tir)
CLA (Cymdeithas Tirfeddianwyr Cefn Gwlad)
Arup
Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Felindre (Ffisiotherapydd)
Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru
Tŷ Hafan
Siambr Fasnach De Cymru
BAWSO
Diverse Cymru
Cyngor Hil Cymru
Race Equality First
BEN (Rhwydwaith Amgylcheddol Du)
WCVA (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
Ymddiriedolaeth Adareg Cymru
CADW
RCAHM Cymru (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru)
Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent
Cynghrair Chwaraeon a Hamdden
Coed Cymru
Age Connects (Caerdydd)
Age Cymru
Oedran Annibynnol (De Orllewin Lloegr a Chymru)
Anabledd Cymru
Cymdeithas Mynediad (Cymru)
Hawliau Anabledd y DU
Cerddwyr Anabl
Scope
RNIB Cymru
NFBUK (Ffederasiwn Cenedlaethol y Deillion DU)
Action on Hearing Loss (Cymru)
Ymddiriedolaeth Innovate (mentro allan)
Grŵp Darparwyr Gweithgareddau
Awyr Agored De Cymru
Gwobr Dug Caeredin (Cymru)
Sgowtiaid Cymru
Girl Guiding Cymru
YHA (Cymdeithas Hosteli Ieuenctid)
RSPCA Cymru
Ymddiriedolaeth Cŵn
The Kennel Club
Anifeiliaid Anwes Mwy Diogel
Cadwch Gymru'n Daclus
Gwirfoddolwyr Cadwraeth Caerdydd
Gwirfoddolwyr y Cerddwyr
Dyddiau Gwyrdd (gwirfoddolwyr-Ymddiriedolaeth Innovate)
Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd (elusen)
Prifysgol Caerdydd
Fforwm Cyfeillion (Parciau)
Stonewall Cymru
Elusen Pererindod Penrhys

**Grwpiau ymgynghorol:**
Cyfoeth Naturiol Cymru (Asesiadau Strategol)
Llywodraeth Cymru (Natur a Choedwigaeth)

**Aelodau'r Cyhoedd**
Yn dilyn arolwg a digwyddiadau CGHT, gwnaeth tua 380 o bobl gais am ddiweddariadau CGHT ac anfonwyd y CGHT 2020-30 drafft iddynt yn electronig.

